# Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cegddu Silff y Gogledd

## Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** ... 3
**Beth yw FMP?** ... 7
**Pam FMP ar gyfer cegddu?** ... 7
**Ymgysylltu â rhanddeiliaid** ... 7
**Gweledigaeth** ... 7
**Polisïau** ... 8
**Cwmpas** ... 9
**Cefndir** ... 9
Stoc ... 9
Pysgodfa ... 13
**Asesiadau stoc ac MSY** ... 15
**Asesu'r dystiolaeth** ... 15
**Rheoli pysgodfeydd** ... 16
Strategaeth reoli ar gyfer cegddu ... 16
Mesurau technegol presennol ... 17
Monitro, rheoli a gorfodi ... 19
Ystyriaethau amgylcheddol ... 20
Cyngor cadwraeth ... 20
Newid hinsawdd ... 23
**Polisïau'r FMP** ... 26
Polisi 1: Cynaeafu stoc gegddu Silff y Gogledd yn gynaliadwy, gyda biomas yn cael ei gynnal uwchlaw'r lefel a allai gynhyrchu MSY ... 27
Polisi 3: Mynd i'r afael â phroblemau taflu ym mhysgodfa gegddu Silff y Gogledd a sicrhau bod pob dalfa, lle bo'n bosib, yn cael eu cyfrif yn erbyn cwotâu ... 29
Polisi 4: Cwblhau gwaith rheoli cynaliadwy ehangach drwy gymryd camau i leihau effaith pysgota cegddu ar yr ecosystem forol ... 31
Polisi 5: Cefnogi busnesau pysgota i ddarparu manteision economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i gymunedau ... 33
Polisi 6: Lleihau effaith pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau newid hinsawdd ... 34

**Gweithredu a Monitro** .......... 36
**Gweithredu** .......... 36
Dangosyddion ar gyfer monitro effeithiolrwydd y cynllun a’r broses adolygu .......... 36

# Crynodeb Gweithredol

Mae cynllun rheoli pysgodfeydd (FMP) cegddu Silff y Gogledd (*Merluccius merluccius*, y cyfeiriwn ato yma fel “cegddu”) yn un o 43 cynllun FMP a ddisgrifir yn y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS). Mae’r FMP wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth yr Alban mewn cydweithrediad a gwyddonwyr, rheoleiddwyr, cyrff cadwraeth natur statudol (SNCB) a rhanddeiliaid yn y DU.

Mae’r FMP yn disgrifio’r polisïau a’r gweithredu ar gyfer parhau i gynnal y stoc gegddu ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl bwysig mewn darparu manteision economaidd-gymdeithasol gwerthfawr i’r DU, gan hefyd gyflwyno camau ar gyfer rheolaeth well lle bo angen. Mae’r FMP yn berthnasol i reolaeth gynaliadwy o’r bysgodfa gegddu yn nyfroedd y DU yn ardaloedd Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Chwilio’r Moroedd (ICES) rhif 4 (Môr y Gogledd), 6 (Rockall a Gorllewin yr Alban), a 7.a, 7.d-h a 7.j, ac wedi cael ei ddatblygu’n unol ag amcanion pysgodfeydd Deddf Pysgodfeydd 2020 (‘Deddf 2020’) ac fel sy’n ofynnol gan y JFS.

Mae’r FMP hwn yn ymwneud â rheoli’r bysgodfa gegddu yn nyfroedd y DU. Mae rheolaeth gyffredinol o’r bysgodfa’n cael ei rannu â phartneriaid y Parthau Arfordirol. Mae’n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach. Rheolir y cyfleoedd i bysgota cegddu gan y dalfeydd mwyaf a ganiateir (TAC). Gall penderfynu ar ddalfeydd TAC fod yn ffordd effeithiol o reoli pwysau pysgota ar stociau. Mae dalfeydd TAC a mesurau rheoli eraill ar y cyd yn cael eu cytuno drwy negodi rhyngwladol sy’n cael eu tywys gan y cyngor gwyddonol gorau ar gael, gan hefyd gydbwyso ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Disgrifir yr egwyddorion sy’n cael eu dilyn gan y DU ar gyfer negodi pysgodfeydd rhyngwladol yn y JFS o dan adran 4.2.

Mae cegddu’n stoc gyda lefel uchel o ddata ar gael. Ar y sail yma, mae digon o dystiolaeth wyddonol ar gael i’r awdurdodau polisi pysgodfeydd perthnasol i wneud asesiadau o’r ddalfa fwyaf sy’n gynaliadwy (MSY) ar gyfer stoc gegddu Silff y Gogledd.

Mae cyfleoedd pysgota ar gyfer y stoc gegddu sy’n berthnasol i’r FMP hwn yn cael eu penderfynu drwy ddull MSY ICES. Gall iechyd stociau pysgod newid dros amser ac mae cyngor ICES yn aml yn newid yn flynyddol. Mae’r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn adolygu stociau’n flynyddol ac mae’r dull o benderfynu cyfleoedd pysgota’n ystyried yr egwyddorion a gyflwynir yn y cynlluniau aml-flwyddyn (MAP) perthnasol, a’r amcan cynaliadwyedd yn Neddf 2020.

Mae’r FMP yn disgrifio gweledigaeth gyda pholisïau a gweithredu sy’n egluro sut y gall y gwaith rheoli barhau i gefnogi dull MSY[1] ar gyfer pysgodfa gegddu Silff y Gogledd, gan dynnu sylw at feysydd gwaith a allai arwain at ddiwygio dulliau rheoli yn y dyfodol. Mae un o’r meysydd ar gyfer gweithredu’n cynnwys gwella’r dull rheoli cyffredinol drwy symud y stoc i drefniadau rheoli tairochrog gyda’r UE a Norwy, a

[1] Rhoddir eglurhad o’r dull MSY o bysgota yn y Cyngor a gyhoeddir gan ICES

thrwy sefydlu Cynlluniau Rheoli Tymor Hir (LTMP) gyda Pharthau Arfordirol eraill. Mae'r meysydd ar gyfer gweithredu'n cynnwys rhai sy'n cefnogi cyflwyno polisïau'n ehangach yn y JFS ac sy'n gallu cyfrannu at ddarparu'r amcanion yn Neddf 2020.

# Byrfoddau

Deddf 2020 – Deddf Pysgodfeydd 2020

CO2e – Carbon Deuocsid cyfatebol

DAERA – Yr Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig

DEFRA – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

UE – Yr Undeb Ewropeaidd

FMP – Cynllun Rheoli Pysgodfeydd

FMSY – Marwolaethau Pysgota’r Ddalfa Fwyaf sy’n Gynaliadwy

FTE – Gweithwyr Llawn Amser

GES – Statws Amgylcheddol Da

HCR – Rheol Rheoli Cynaeafu

ICES – Y Cyngor Rhyngwladol Archwilio’r Môr

JFS – Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd

JNCC – Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

LTMP – Cynlluniau Rheoli Tymor Hir

MCRS – Lleiafswm Maint Cyfeiriadau Cadwraeth

MMO – Sefydliad Rheoli Morol

MPAs – Ardaloedd Morol Gwarchodedig

MSY – Y Ddalfa Fwyaf sy’n Gynaliadwy

PMFs – Nodweddion Morol Blaenoriaeth

PPT – Tunelledd a phris y dunnell

REM – Monitro Electronig o Bell

SNCB – Cyrff cadwraeth natur statudol

SSB – Biomas stoc silio

SSFI – Mynegai Pysgota Cynaliadwy'r Alban

TAC – Y ddalfa fwyaf a ganiateir

UK – Y Deyrnas Unedig

# Beth yw FMP?

FMP yw dogfen wedi'i pharatoi a'i chyhoeddi o dan Ddeddf 2020 sy'n disgrifio polisïau a ddyfeisiwyd i adfer un stoc neu fwy o bysgod môr er mwyn eu cadw ar lefelau cynaliadwy neu gyfrannu at adfer neu gynnal ar lefelau cynaliadwy. Mae'n gynllun gweithredu ar sail tystiolaeth sy'n cynorthwyo i ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory. Mae'r FMP yn gynllun tymor hir sy'n rhaid ei adolygu a, lle bo angen, ei ddiwygio o leiaf unwaith pob chwe blynedd. Mae'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer y bysgodfa (neu bysgodfeydd) ynghyd â'r polisïau ac ymyriadau rheoli sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth hon.

# Pam FMP ar gyfer cegddu?

Rhywogaeth pysgodyn gwyn yw'r gegddu sy'n cael ei ddal fel rhan o bysgodfeydd cymysg o bysgod targed a gwyn o fewn a thu allan i ddyfroedd y DU. Mae'r gegddu'n rhywogaeth masnachol bwysig yn nyfroedd y DU a'r rhywogaeth bwysicaf ar gyfer y sector pysgota lein hir. Mae'r gegddu, yn ardaloedd ICES 4, 6 a 7, yn cael eu dal yn bennaf gan fflyd bysgota'r UE er yn dal i fod yn ffynhonnell incwm sylweddol i fflyd y DU.

# Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae'r FMP wedi'i oleuo fel cynllun gan ystod o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn 2023 sefydlwyd gweithgor o dros 50 o randdeiliaid SNCB, amgylcheddol ac o ddiwydiant, gan gyfarfod nifer o weithiau i helpu i oleuo a llunio cynnwys yr FMP hwn. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd dwyochrog ar wahân dros nifer o fisoedd i gasglu barn a mewnbwn ychwanegol. Roedd hyn yn rhan o broses o'r enw 'cyn-ymgynghori'. Fel rhan o'r broses, rhannodd Lywodraeth yr Alban ddrafftiau o rai o'r cynlluniau FMP dyfnforol a chasglu sylwadau gan randdeiliaid mewn dau weithdy a gynhaliwyd yn Chwefror 2025 a thrwy wahodd adborth ysgrifenedig. Mae gwybodaeth rhanddeiliaid wedi bod yn werthfawr i roi cyd-destun ar gyfer y FMP ac i ddatblygu camau gweithredu ystyrlon i gynorthwyo i reoli cegddu Silff y Gogledd yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Bydd adborth a dderbyniwyd fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn helpu i lunio'r ddogfen derfynol.

# Gweledigaeth

Gweledigaeth yr FMP hwn yw rheoli pysgodfa gegddu dyfroedd y DU yn gynaliadwy i sicrhau bod stociau'n cael eu cynnal uwchlaw lefel y biomas sy'n gallu cynhyrchu MSY.

Mae polisïau a gweithredu a gyflwynir yn yr FMP hwn yn disgrifio sut fydd hyn yn digwydd mewn ffordd sy'n gyson gyda, ac yn cefnogi'r gwaith ehangach o gyflawni'r

amcanion pysgodfeydd a ddisgrifir yn Neddf 2020 a’r polisïau yn y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) ac ymrwymiadau deddfwriaethol eraill.

# Polisïau

Oherwydd bod digon o dystiolaeth i asesu MSY, rhaid i’r FMP gynnwys polisïau sydd o leiaf yn cyfrannu at adfer neu gynnal y stoc ar lefelau MSY. Hefyd, yn unol ag adran 5.4 y JFS, mae dyluniad a strwythur cynlluniau FMP yn ymwneud yn uniongyrchol â’r amcanion pysgodfeydd yn adran 5.4.2 ond gallent hefyd roi sylw i faterion rheoli pysgodfeydd ehangach gan ddibynnu ar nodau neu dargedau penodol pob cynllun a chyfrannu at un neu fwy o’r amcanion pysgodfeydd sy’n weddill.

I sicrhau y rheolir y bysgodfa gegddu’n barhaus ac effeithiol yn nyfroedd y DU, mae’r FMP yn adnabod 6 polisi’n ymwneud â blaenoriaethau rheoli domestig a rhyngwladol. Mae’r polisïau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o’r ymgynghoriad gyda blaenoriaeth briodol iddynt i sicrhau allbynnau realistig a mesuradwy. Cawsant eu drafftio i gwrdd â gofynion adran 6(3)(a) Deddf 2020 (polisïau 1 a 2) a pholisïau a gyflwynir yn y JFS (polisïau 3, 4, 5 a 6).

Ar gyfer pob polisi mae’r cynllun yn disgrifio:

- rhesymeg;
- gweithredu ar waith, tymor byr a mwy hirdymor; a
- sut y mae’r gweithredu’n cynorthwyo i gyflawni’r amcanion pysgodfeydd.

Mae pob polisi’n disgrifio’r canlyniad sydd mewn golwg a bwriad y camau gweithredu yw cynorthwyo i gyflawni’r canlyniadau hynny.

Trafodwn ddangosyddion perfformiad y FMP tuag at ddiwedd y ddogfen hon.

Chwe nod polisi’r FMP hwn yw:

1. Cynaeafu stoc gegddu Silff y Gogledd yn gynaliadwy a chynnal y biomas uwchlaw’r lefel sy’n gallu cynhyrchu MSY.
2. Defnyddio’r dystiolaeth wyddonol orau ar gael i gynorthwyo penderfyniadau rheoli ar gyfer penderfynu cyfleoedd pysgota cynaliadwy.
3. Mynd i’r afael â phroblemau taflu yn y bysgodfa gegddu a sicrhau, lle bo’n bosib, y rhoddir cyfrif am bob dalfa yn erbyn cwotâu.
4. Cwblhau gwaith rheoli cynaliadwy ehangach drwy gymryd camau i leihau effaith y bysgodfa gegddu ar yr ecosystem forol.
5. Cefnogi busnesau pysgota i roi manteision economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i gymunedau.
6. Lleihau effaith pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi’r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau newid hinsawdd.

# Cwmpas

Mae'r FMP hwn yn ymwneud â chegddu Silff y Gogledd (*Merluccius merluccius*). Mae cegddu Silff y Gogledd i'w cael ym Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (ardaloedd ICES 4 a 6) ynghyd ag ardaloedd ICES 7 ac 8. Mae'r FMP hwn yn berthnasol ond i ddyfroedd y DU ym Môr y Gogledd, Gorllewin yr Alban a Rockall (ardaloedd ICES 4 a 6) ynghyd ag ardaloedd ICES 7.a, 7.d-h a 7.j.

O dan Ddeddf 2020, rhaid i'r awdurdod neu awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi cynlluniau FMP yn unol â'r rhestr a'r amserlen yn y JFS.[2] Yr awdurdodau perthnasol sy'n gyfrifol am y FMP hwn yw DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.[3] Paratowyd a chyhoeddwyd y cynllun ar y cyd gan yr awdurdodau perthnasol i bwrpas Deddf 2020. Fel yr awdurdod sy'n cydlynu, mae Llywodraeth yr Alban wedi cydlynu'r gwaith o baratoi a rheoli'r cynllun hwn ar ran yr awdurdodau perthnasol eraill. [4]

# Cefndir

## Stoc

Mae cegddu'n bysgodyn cefnforol mawr wedi'i ddosbarthu'n eang ar draws ardal gogledd-ddwyrain yr Iwerydd, o Norwy a Gwlad yr Iâ i lawr i Foroco ac i mewn i Fôr y Canoldir. Mae rhai arwyddion o amrywiadau genetig yn yr ardaloedd hyn ac mae asesiadau a chyngor presennol a pherthnasol gan ICES ar gyfer cegddu Silff y Gogledd yn cynnwys y rhan o'r stoc i'r gogledd o'r ffin rhwng Ffrainc a Sbaen.  Mae dosbarthiad cegddu Silff y Gogledd yn newid dros amser, efallai wedi'i yrru gan newid hinsawdd, ac yn y blynyddoedd diwethaf daeth yn llawer mwy cyffredin yn rhan ogleddol Môr y Gogledd. Casglodd rai astudiaethau fod y duedd cynhesu ddiweddar yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd wedi bod yn llesol i recriwtio a thwf y gegddu.

Mae'r gegddu'n byw mewn ystod eang o ddyfnderoedd, o ddyfroedd y glannau i lawr i tua 370m, gyda'r amser silio'n dibynnu ar leoliad (gan ddigwydd nes ymlaen yn y flwyddyn i stociau mwy gogleddol).  Mae'r rhan fwyaf o silio'n digwydd ar hyd ymyl y silff, o ogledd Bae Biscay i dde-orllewin Iwerddon. Mae cegddu oedolion yn bysgysol (bwyta pysgod) ac yn un o'r prif bysgod ysglyfaethus ar gyfer pysgod cefnforol bach yn enwedig (swtanod glas, penwaig, corbenwaig a marchfecryll).

---

[2] Llywodraeth y DU (2022) Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd

[3] Rhoddir y diffiniad o "awdurdod" yn Atodiad A (t. 55) y JFS, sef: "**Awdurdod neu Awdurdodau sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi'r cynllun**: Yr awdurdod neu awdurdodau sy'n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi'r cynllun. Gall fod hyd at bedwar awdurdod polisi pysgodfeydd yn gweithredu ar y cyd ar y cynllun."

[4] Rhoddir y diffiniad o "awdurdod cydlynu" yn Atodiad A (t. 55) y JFS, sef:- "**Awdurdod Cydlynu**: Yr awdurdod polisi pysgodfeydd fydd yn cydlynu'r gwaith o baratoi a rheoli'r cynllun ar ran yr awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill sy'n gweithredu ar y cyd"

.

Fel rheol defnyddir cychod rhwydo (gwely'r môr), rhwydi drysu, a leiniau hir i ddal cegddu. Gall y math o bysgota amrywio rhwng gwledydd a rhwng ardaloedd pysgota. Mae'r ffigurau yn y FMP hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gychod pysgota'r DU oherwydd dyma'r rhai y mae gennym ni ddata cynhwysfawr ar eu cyfer. Eglurir hyn ymhellach yn yr adran pysgodfeydd isod.


Cyrhaeddodd ddalfeydd o gegddu frig hanesyddol yn 2016 gan leihau ers hynny ar ôl cyfnod o recriwtio llai, er bod y dalfeydd yn dal i fod yn uwch na'r cyfartalog tymor hir. Mae'r amcan-farwolaethau pysgota wedi bod o dan yr FMSY ers diwedd y 2010au, a biomas stociau silio (SSB) wedi bod ymhell uwchlaw'r trothbwynt biomas MSY dros yr un cyfnod (er wedi dirywio ers 2016, yn gymesur â dalfeydd llai).

# Lleoliad


Mae'r stoc fiolegol i'w chael ym Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (ardaloedd ICES 4 a 6) ynghyd ag ardaloedd 3.a, 7 ac 8. I bwrpas rheoli, mae dwy ardal TAC ar wahân, wedi eu dynodi gan godau ICES HKE/2AC4-C a HKE/571214. Mae HKE/2AC4-C yn cynnwys dyfroedd ardal 2.a y DU, ac mae HKE/571214 yn cynnwys ardaloedd 5.b, 7, 12 ac 14 dyfroedd y DU a rhyngwladol. Mae'n werth nodi bod rheoliad yn y cytundeb TAC blynyddol rhwng y DU a'r UE yn caniatáu trosi hyd at 100% o TAC cegddu'r gorllewin yn TAC Môr y Gogledd ('trosglwyddiad stoc').

Mae'r ffigurau isod yn dangos lleoliad yr ardaloedd ICES ynghyd â dosbarthiad hysbys o'r stoc gegddu, yn ôl y data arolwg diweddaraf sydd ar gael.


Mae'r rhan fwyaf o gegddu sy'n cael eu dal yn nyfroedd y DU yn cael eu dal yn ardal ICES 4 (56%), 21% yn ardal ICES 6 a 24% yn ardal ICES 7.a, 7.d-h a 7.j. Mae peth gwybodaeth fwy diweddar sy'n awgrymu bod dosbarthiad stoc gegddu'r Gogledd bellach yn newid ar ôl i'r biomas leihau.




**Ffigwr 1: Map o ardaloedd ICES perthnasol i'r FMP hwn mewn melyn.** Mae'r FMP hwn berthnasol i'r bysgodfa gegddu yn nyfroedd y DU'n unig.




**Ffigwr 2: Map o laniadau cegddu (pob gwlad a chychod gêr) ar gyfer 2020.** Ffynhonnell: Adroddiad 2025 y Gweithlu Cegddu Tairochrog (efo'r wasg).




**Ffigwr 3: Map of laniadau cegddu (pob gwlad a chychod gêr) am y blynyddoedd 2013-2020.** Ffynhonnell: 2025 Adroddiad y Gweithgor Cegddu Tairochrog

# Pysgodfa

Mae pysgota cegddu yn nyfroedd y DU yn digwydd fel rhan o bysgodfa gymysg (mae cegddu'n cael eu dal ochr yn ochr â physgod gwyn eraill, yn aml o sgîl-ddal gan gychod rhwydo'n hytrach na fel rhywogaeth darged) a physgodfa darged (sydd fel arfer yn defnyddio leiniau hir neu rwydi drysu). Mae stociau pysgod gwyn yn rhannu nifer o nodweddion cyffredin a thebyg o ran ble a sut y maen nhw'n cael eu pysgota. Wrth ystyried camau rheoli ar gyfer cegddu Silff y Gogledd fel rhan o'r FMP hwn, ac fel rhan o ystyriaethau rheoli ehangach fel penderfynu cyfleoedd pysgota, mae awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ystyried rôl cegddu yn yr ecosystem forol ehangach. Mae llawer o'r materion a ystyrir fel rhan o'r FMP hwn yn gyffredin i lawer o bysgodfeydd pysgod gwyn dyfnforol, felly'n aml nid yw'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd yn benodol i un stoc neu bysgodfa.

Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau yn yr adran yma'n seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael sef o 2022. Er bod yr adran yma'n rhoi ciplun o'r bysgodfa ar y pryd, ni fydd yn adlewyrchu'r newidiadau mwy diweddar yn y bysgodfa.

Rhwng 2019 a 2022, roedd 95% o gegddu wedi eu dal yn nyfroedd y DU yn cael eu dal gan bysgodfeydd yn targedu'r dyfnfor, 4% yn cael eu dal gan bysgodfeydd cymysg ac 1% gan y fflyd pysgod cregyn.

Mae cychod pysgota'n aml yn symud o un ardal forol i'r llall i bysgota, yn enwedig os yw stociau pysgod penodol fel cegddu'n symud rhwng yr ardaloedd hyn.  Mae penderfyniadau am ble a phryd i bysgota fel arfer yn ystyried faint o gwota sydd ar gael a chaniatadau mynediad.

Mae dadansoddiad wedi'i wneud o fflyd bysgota'r DU yn dal cegddu Silff y Gogledd yn nyfroedd y DU. Rhwng 2015 a 2022, daliwyd 56% o gegddu yn ardal ICES 4 (4.a yn bennaf). Roedd y 44% arall wedi'i rannu'n gymharol gyfartal rhwng ardal 6 (6.a yn bennaf) ac ardal 7 (gwahaniaethau amrywiol rhwng is-sectorau). Rhwng 2015 a 2021, glaniodd fflyd y DU 11% o gegddu a ddaliwyd yn ardaloedd ICES 5, 6 a 7, a hefyd yn is-ardaloedd 8.ab, 8.d a 3.a, sy'n cynnwys dyfroedd y tu allan i'r DU. Os na chyfrwn is-ardaloedd 8 a 3, amcangyfrifir bod fflyd y DU wedi glanio 15% o'r cegddu a ddaliwyd yn nyfroedd y DU, a'r gweddill yn dod gan fflyd yr UE. Dwy o brif wledydd fflyd yr UE yw Ffrainc a Sbaen.

O'r glaniadau a ddaliodd fflyd y DU yn 2022, roedd cychod o Loegr yn cyfrif am 37% o'r ddalfa, y rhan fwyaf yn ardal 7. Roedd cychod yr Alban yn cyfrif am 60% o'r ddalfa gyda'r rhan fwyaf o'u glaniadau'n dod o ardaloedd 4 a 6. Daliodd fflyd Gogledd Iwerddon tua 2% a daliodd fflyd Cymru lai na 0.1%. . Defnyddiwyd data rheoli'r DU i ddadansoddi fflyd y DU. Defnyddiwyd data adroddiadau stoc ICES i ddadansoddi'r fflyd ddi-DU oherwydd nid oes gennym ddata cynhwysfawr ar ymdrechion pysgota cegddu'r fflyd honno, fel y nodwn o dan yr adran 'Stoc' uchod.

Dengys dadansoddiad o ddata pysgodfeydd y DU rhwng 2015 a 2022 fod cychod rhwydo'n cyfrif am tua 45% o'r holl gegddu a ddaliwyd, bachau a leiniau am ~35% a rhwydi drysu a llusg yn rhannu'r gweddill. Mae'n ymddangos bod tuedd hirdymor i

ffwrdd o fachau a leiniau a thuag at rwydi drysu a llusg, er bod bachau a leiniau'n parhau i fod yn gêr poblogaidd i bysgota.

Tabl – Cegddu Silff y Gogledd a ddaliwyd yn ôl math o gêr, ar gyfer fflyd y DU yn glanio yn y DU.

| **Math o gêr** | **2015** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bachau a leiniau** | 46% | 48% | 43% | 33% | 28% | 27% | 26% | 32% |
| **Cychod rhwydo** | 41% | 39% | 43% | 45% | 45% | 49% | 44% | 38% |
| **Rhwydi drysu a rhwydi cordeddu** | 10% | 9% | 10% | 15% | 18% | 16% | 21% | 20% |
| **Rhwydi llusg (neu sân)** | 3% | 3% | 4% | 7% | 9% | 8% | 9% | 10% |

Ar ôl dadansoddi data pysgodfeydd y DU ymhellach drwy gategoreiddio fflydoedd pysgod môr[5], fflydoedd cychod rhwydo a chychod rhwydo llusg pâr dyfnforol Môr y Gogledd a Gorllewin yr Alban oedd y ddwy brif fflyd yn pysgota cegddu rhwng 2015 a 2022, gan gyfrif am 37% am y naill a 24% am y llall o'r holl gegddu a ddaliwyd yn nyfroedd y DU. Rhwydi drysu oedd y fflyd fawr nesaf gan gyfrif am 14% o gegddu a ddaliwyd dros yr un cyfnod, gyda fflydoedd cychod dyfnforol dros 24m Môr y Gogledd a Gorllewin yr Alban yn cyfrif am ychydig dros 10% o'r ddalfa.

Roedd y pris cyfartalog y dunnell o gegddu'n gyson rhwng £2,150 a £2,350 rhwng 2015 a 2020. Mae cynnydd cyson wedi bod ym mhris tunnell o gegddu ers 2021, gyda'r pris y dunnell yn cyrraedd £2,800 yn 2022. Fodd bynnag, ar y cyfan mae gwerthoedd glanio wedi gostwng, gyda phris glanio'r dunnell i lawr o ~14,000t yn 2017 i ~6,000t yn 2021. Gwelodd 2022 gynnydd yn y gwerth glanio hyd at ~ £23 miliwn.

Roedd y rhan fwyaf o gegddu a ddaliwyd rhwng 2015 a 2021 gan fflyd y DU wedi'i lanio yn y DU (89%), a 11% y tu allan i'r DU. Y gwledydd tramor mwyaf ar gyfer glanio yw Gweriniaeth Iwerddon, gyda thua 5% o dunelledd fflyd y DU yn cael ei lanio yno. Y prif barthau glanio ar gyfer cegddu yn y DU oedd Gogledd a Gogledd-Ddwyrain yr Alban (46%), gyda glaniadau nodedig eraill o gegddu yng Ngorllewin yr Alban (23%) a De-Orllewin Lloegr (14%). Mae cegddu Silff y Gogledd yn bysgodfa arbennig o nodedig ar gyfer porthladd Lochinver, gyda chegddu'n cyfrif am dros 50% o werth glanio'r porthladd, er bod ei gyfran o werth glanio cegddu'r DU ond yn 8%. Newlyn yn Ne-Orllewin Lloegr sydd â'r glaniadau mwyaf o ran gwerth o unrhyw borthladd yn y DU. Yn 2023, glaniwyd tua 1,767t o gegddu gyda gwerth marchnad o £6.8m yn Newlyn yn Ne-Orllewin Lloegr. Roedd yn cyfrif am tua 28% o werth yr holl laniadau dyfnforol yn Newlyn. Glaniwyd cegddu gwerth bron i £300,000 mewn 27 o borthladdoedd eraill yn Lloegr. Mae cegddu'r un mor bwysig i borthladdoedd yr Alban gyda thua 5,452t, gwerth ychydig dros £23m, wedi'i lanio yn yr Alban yn 2023. Glaniwyd cegddu gwerth dros £1m mewn pum porthladd yn yr Alban (Scrabster, Peterhead, Lochinver, Ullapool a Lerwick). Glaniwyd cyfanswm o 5,452t o gegddu, gwerth ychydig dros £23m, yn yr Alban yn 2023.

---

[5] Offeryn Amcangyfrifon Fflyd Economaidd ac Ymchwiliadau Fflyd y DU - Adroddiad Methodoleg - Pysgod Môr – *t.17*

Cegddu Silff y Gogledd yw'r rhywogaeth bwysicaf ar gyfer pysgodfeydd leiniau hir yn nyfroedd y DU, gan gyfrif am ddwy ran o dair o'u tunelledd a gwerth glanio a ddaliwyd rhwng 2015 a 2022. Roedd rhwydi drysu hefyd yn dibynnu ar gegddu am ~30% o werth glanio'r fflyd dros yr un cyfnod. Mae'r ddwy fflyd yma'n gyflogwyr pwysig yn y diwydiant pysgota gan gyfrif am 238 a 271 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn 2022[6] sydd, yn ei dro, yn gwneud cegddu'n rhywogaeth bwysig i gynnal y fflydoedd hyn o ystyried pa mor ddibynnol ydyn nhw ar gegddu. Ar gyfer fflyd cychod rhwydo llusg pâr dyfnforol Môr y Gogledd a Gorllewin yr Alban, roedd cegddu'n cyfrif am ychydig dros 10% o werth glanio'r fflyd, a ddim yn cynrychioli rhywogaeth nodedig i fflydoedd eraill.

# Asesiadau stoc ac MSY

## Cyngor gwyddonol

Casglwyd y dystiolaeth ganlynol o'r adroddiad gweithgor asesu diweddaraf gan ICES (ICES 2024)[7] a'r mynegai stociau ICES cysylltiedig[8].

Fel y mae Adran 3.2 y JFS yn ei nodi, mae'r DU yn defnyddio dull ar sail tystiolaeth o reoli pysgodfeydd, a'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael. I bwrpas rheoli stoc a phenderfynu TAC, mae hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar ddefnyddio cyngor wedi'i gynhyrchu gan ICES, er y gellir hefyd defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys data'r diwydiant pysgota.

Cynhyrchir asesiad cegddu'r Gogledd yn flynyddol gan Weithgor ICES ar gyfer Eco-ranbarth Bae Biscay a Dyfroedd Iberia (WGBIE). Trefnir cyngor ICES yn ôl categori gan amrywio o 1 (lle y mae'r mwyaf o wybodaeth ar gael) i 6 (y lleiaf). Mae cegddu'n stoc Categori 1 sy'n golygu yr ystyrir bod data oedran llawn yn ôl maint ar ei gyfer er mwyn cynhyrchu asesiad, a bod pwyntiau cyfeiriol MSY ar gael i ddarparu fframwaith ar gyfer camau rheoli.

Mae ymarferion meincnod yn offeryn a ddefnyddir gan ICES i adolygu ac ymgorffori gwyddoniaeth neu dystiolaeth newydd yn y broses asesu stoc. Maen nhw'n rhan o'r broses sy'n sicrhau bod cyngor ICES yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael. Roedd y stoc yn destun asesiad meincnod gan ICES yn 2022. Nid yw cynllun MAP yr UE wedi cael ei fabwysiadu gan Norwy a'r DU felly nid oes cynllun rheoli wedi'i gytuno'n rhyngwladol. Yn y sefyllfa yma, mae cyngor ICES yn seiliedig ar y dull MSY.

## Asesu'r dystiolaeth

[6] Economeg Fflyd Bysgota'r DU 2023 - Pysgod Môr
[7] ICES. 2024. Gweithgor Eco-ranbarth Bae Biscay a Dyfroedd Iberia (WGBIE). Adroddiadau Gwyddonol ICES. 6:59. t.762. https://doi.org/10.17895/ices.pub.25908130.
[8] https://doi.org/10.17895/ices.pub.21623226.v2.

Fel y dywedwn uchod, mae cegddu Silff y Gogledd yn stoc gyda lefel uchel o ddata ar ei gyfer. Ar y sail yma, mae digon o dystiolaeth wyddonol ar gael i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd perthnasol wneud asesiadau MSY blynyddol o stoc gegddu Silff y Gogledd.

Ar hyn o bryd mae'r stoc gegddu o dan yr FMP hwn uwchlaw'r lefelau biomas ar gyfer MSY. Cyrhaeddodd ddalfeydd o gegddu frig hanesyddol yn 2016 gan leihau ers hynny ar ôl cyfnod o recriwtio llai, er bod y dalfeydd yn dal i fod yn uwch na'r cyfartalog tymor hir. Mae'r amcan-farwolaethau pysgota wedi bod o dan yr FMSY ers diwedd y 2010au, a biomas y stoc silio (SSB) wedi bod ymhell uwchlaw'r trothbwynt biomas MSY dros yr un cyfnod (er wedi dirywio ers 2016, yn gymesur â dalfeydd llai).

# Rheoli pysgodfeydd

## Strategaeth reoli ar gyfer cegddu

Yn y JFS, mae awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU yn disgrifio uchelgais cyffredin i sicrhau rheolaeth gynaliadwy byd-flaenllaw o bysgodfeydd morol a dyframaeth y DU, ac i wneud ein rhan mewn cynorthwyo i ddarparu hyn yn fyd-eang'. Mae'r JFS hefyd yn nodi 'Fel rhan o fod yn Barth Arfordirol annibynnol, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi sector pysgota a dyframaeth bywiog, proffidiol a chynaliadwy wedi'i gefnogi gan amgylchedd morol iach sy'n wydn yn erbyn newid hinsawdd'. Rheolir yr uchelgeisiau hyn drwy nifer o raglenni polisi domestig a rhyngwladol sy'n gofyn gweithredu i ystyried a lliniaru'r effeithiau niweidiol ehangach y mae pysgota'n ei gael ar yr amgylchedd.

Yn nyfroedd y DU, rheolir pysgodfeydd o dan ddeddfwriaeth bysgodfeydd y DU (fel Deddf 2020, is-ddeddfwriaeth traws-DU a gan y gwledydd datganoledig) a thrwy amodau trwydded lle bo'n briodol.

Mae cegddu (yn ardaloedd ICES 4, 6 a 7) yn stoc o dan gynllun MAP Dyfroedd y Gorllewin (EUR 2019/472).[9] Mae'n cynnwys mesurau i adfer a chynnal stociau pysgod uwchlaw'r lefelau sy'n gallu cynhyrchu MSY, yn ogystal â gofynion yn ymwneud â phenderfynu cyfleoedd pysgota ac ymgysylltu â thrydydd gwledydd i sicrhau y rheolir y stociau perthnasol mewn ffordd gynaliadwy'n unol ag amcanion y cynlluniau MAP.

Mae'r gwaith o reoli pysgodfa gegddu'r DU yn cael ei wneud fel rhan o'r cyd-destun ehangach hwn.

Mae cegddu'n stoc sy'n cael ei reoli ar y cyd yn yr UE. Mae cyfleoedd cwota ar gyfer yr ardaloedd TAC (HKE/2AC4-C a HKE/571214) yn cael eu cyd-benderfynu yn y DU

[9] Roedd y MAP yn rhan o Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE sydd wedi cael ei gadw a bellach, yn ei ffurf ddiwygiedig, yn rhan o gyfraith wedi'i chymhathu.

a'r UE. Mae'r trafodaethau negodi gyda'r Parthau Arfordirol yn dilyn yr egwyddorion yn y JFS.

Ar ôl i negodi blynyddol gyda'r UE ddod i ben, mae cyfran y DU o'r TAC yn cael ei benderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel cyfleoedd pysgota ar gyfer cychod Prydeinig a'i chyhoeddi mewn dogfen o dan adran 23 Deddf 2020.[10] Yn dilyn hyn, mae cwota'r DU yn cael ei ddyrannu rhwng pedair Gweinyddiaeth Bysgodfeydd y DU yn unol â Rheolau Rheoli Cwotâu y DU[11]. Mae pob Gweinyddiaeth Bysgodfeydd yna'n dyrannu ei chyfran o gwota i gychod / trwyddedau o dan eu gweinyddiaeth, yn unol â'u rheolau ar reoli cwotâu[12] ac adran 25 Deddf 2020. Mae'n bosib addasu cwotâu, er enghraifft gellir eu trosglwyddo rhwng y grwpiau rheoli sy'n cynrychioli cychod pysgota'r DU, neu eu cyfnewid gyda'r UE.

Mae gwaith yn parhau rhwng y Parthau Arfordirol i gael trefniadau rheoli tairochrog ar gyfer rheoli cegddu a fyddai'n golygu y byddai'r cyfleoedd cwota'n cael eu penderfynu rhwng y DU, yr UE a Norwy. Mae Parthau Arfordirol sy'n rheoli stociau (gan gynnwys corbenfras Silff y Gogledd) drwy drefniant tairochrog ar y cyd wedi ymrwymo i weithio tuag at Gynlluniau Rheoli Tymor Hir (LTMP) ar gyfer y stociau hyn.[13] Gall LTMP osod rheol ar gyfer rheoli cynaeafu (HCR) y stoc dan sylw fydd, lle bo'n briodol, yn adeiladu ar yr elfennau o HCR a ddisgrifir yng nghynllun MAP Dyfroedd y Gorllewin ac sydd eisoes yn rhan o gyngor ICES. Mae HCR ar gyfer stoc gwota'n drefniant wedi'i gytuno sy'n diffinio dull o benderfynu TAC ar sail allbynnau asesu stociau targed fel y gyfradd marwolaethau pysgota (F) a SSB. Gall hefyd gynnwys elfennau ychwanegol fel dulliau sefydlogrwydd a hyblygrwydd cwota rhyng-flynyddol. Drwy fodelu effeithiau tymor byr i hir, bydd cyfuniad o'r opsiynau hyn yn cael eu dewis gan y partïon trafod gyda'r nod o sicrhau iechyd y stoc, sicrhau'r ddalfa gyfartalog fwyaf bosib a lleihau amrywiadau cwota o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn rhoi ffordd fwy sefydlog o reoli stociau yn y tymor hir.

Bydd y DU yn parhau i weithio â Pharthau Arfordirol eraill ar weithredu'r ymrwymiad i gynhyrchu LTMP ar gyfer stociau a reolir ar y cyd, gan gynnwys cegddu, ac yn ceisio gwneud hyn gydag unrhyw LTMP a gytunir yn y dyfodol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y stoc gegddu.

# Mesurau technegol presennol

Rheolir pob pysgota yn y DU drwy ystod o fesurau technegol. Yn hanesyddol, roedd y mesurau technegol hyn ar ffurf rheoliadau cadwraeth technegol ac yn rhan o ddeddfwriaeth y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) drwy amrywiol ddeddfau dirprwyedig yr UE, sydd bellach wedi eu cadw yng nghyfraith y DU ar ôl gadael yr UE a chyfeirir atynt fel 'cyfreithiau a gymhathwyd'. Ar ôl i'r DU adael yr UE, mae gan Lywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig amrywiol bwerau i gyflwyno mesurau

[10] Yr Adran Amaeth, Bwyd a Materion Gwledig (2024) Cyfleoedd pysgota ar gyfer cychod pysgota Prydeinig.
[11] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2024) Rheolau Rheoli Cwotâu'r DU.
[12] Mae gan Lywodraeth yr Alban, Defra, Llywodraeth Cymru, a DAERA reolau gwahanol ar gyfer rheoli cwotâu.
[13] Llywodraeth yr Alban (2023) Yr Undeb Ewropeaidd, Norwy a'r Deyrnas Unedig - ymgynghoriadau pysgodfeydd: cofnodion cytunedig

technegol newydd, er enghraifft drwy ddefnyddio amodau trwydded, neu drwy is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 2020 neu gyfreithiau perthnasol eraill y DU.

Mae mesurau technegol yn tueddu i gymhwyso i grwpiau penodol o gychod, neu fathau o bysgod, ac felly'n gallu bod yn debyg iawn. Mae hyn yn golygu bod y mesurau technegol sydd yn eu lle i gefnogi pysgota cegddu'n gynaliadwy yn debygol o fod yn debyg i'r rhai a ddefnyddir i reoli stociau eraill o bysgod gwyn, yn enwedig os ydynt yn rhan o bysgodfa gymysg.

Mae'r mesurau technegol presennol[14] sydd yn eu lle i sicrhau bod cegddu'n cael eu pysgota'n gynaliadwy'n cynnwys:

- Lleiafswm Maint Cyfeiriadau Cadwraeth (MCRS) (sy'n atal targedu pysgod rhy fach drwy sicrhau mai ond pysgod uwchlaw'r MCRS y gellir eu gwerthu i'w bwyta),
- Lleiafswm meintiau mesh a strwythur rhwydi pysgota (y safon leiaf sy'n ofynnol er mwyn dal llai o bysgod sydd o dan y MCRS a gwneud gweithgarwch pysgota'n fwy effeithlon ac effeithiol yn gyffredinol),
- Y Rhwymedigaeth Glanio[15] sy'n rhagnodi bod yn rhaid i bob dalfa o rywogaeth gwota, gan gynnwys cegddu a phob dalfa o dan MCRS, gael eu glanio a'u cyfrif yn erbyn cwota oni bai fod eithriad.

Rhoddir mwy o fanylion am fesurau technegol ar wefan rheolau a rheoliadau Cadwraeth Technegol a Rhwymedigaeth Glanio Llywodraeth y DU.[16]

Fel y dywedwn eisoes yn y FMP hwn, er bod y rhwymedigaeth glanio yn ei lle, mae problemau o hyd gyda thaflu pysgod yn anghyfreithlon ym mhysgodfa gegddu Silff y Gogledd. Dengys ffigurau taflu gan ICES, ar gyfer yr holl gychod sy'n rhan o bysgodfa gegddu Silff y Gogledd (h.y. heb ei chyfyngu i gychod y DU ac nid yn unig yn nyfroedd y DU), dros 5 mlynedd ar gyfartaledd rhwng 2019-2023, allan o ddalfa gyfan o 376,632 tunnell, bod 26,881 tunnell hefyd wedi cael ei daflu. Roedd y gyfradd daflu wedi amrywio o 4.6% i 10%. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer ardal(oedd) ICES 4, 6 a 7 ac is-ardaloedd 3.a, 8.a–b ac 8.d (Môr y Gogledd Fwyaf, y Moroedd Celtaidd, a gogledd Bae Biscay).

Nid yw problemau taflu'n benodol i gychod y DU, maen nhw hefyd yn codi gyda chychod y tu allan i'r DU sy'n dal y stoc (o fewn a thu allan i ddyfroedd y DU). Mae camau'n cael eu cymryd ar draws y DU i ateb problemau taflu a chamau gweithredu ar gyfer hyn wedi eu cynnwys yn yr adran 'Gweithredu'. Mae hyn yn cynnwys ystyried mesurau technegol ychwanegol a allai gynorthwyo cychod pysgota i fod yn fwy dethol ac osgoi dal pysgod y byddent am eu hosgoi. Yn yr Alban daw hyn o dan raglen waith Polisi Dal y Dyfodol.

---

[14] Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau technegol sy'n berthnasol i gychod pysgota'n cael eu disgrifio yn neddfwriaeth y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a basiwyd gan Senedd Ewrop yn 2013, a'i ddiweddaru yn 2019, cyn cael ei gymhathu yng nghyfraith y DU ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae'r ddolen hon yn rhoi manylion y gyfraith a gymhathwyd.

[15] Disgrifir y Rhwymedigaeth Glanio yn Erthygl 15 Rheoliad cyfraith a gymhathwyd rhif 1380/2013 yr UE, ac ar gael drwy fynd i legislation.gov.uk yma. Dylid nodi bod eithriadau'n dilyn hynny ar sail de minimis neu oroesi uchel wedi eu cynnwys mewn offerynnau statudol a basiwyd wedyn ar gyfer y DU.

[16] Llywodraeth y DU (2024) *Rheoliadau a rheolau Cadwraeth Dechnegol a Rhwymedigaeth Glanio o 2022 ymlaen*.

Gallai stoc gegddu Silff y Gogledd achosi problemau ‘tagu’. Mae ‘tagu’ yn cyfeirio at sefyllfa a allai ddigwydd pan allai cyfleoedd cwota ar gyfer un stoc mewn pysgodfa gymysg gyfyngu gallu cychod pysgota i uchafswm dalfeydd stoc arall oherwydd bod y cwota’n gyfyngedig. Mae awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ystyried problemau ‘tagu’ posib fel rhan o benderfynu cyfleoedd cwota.

## Monitro, rheoli a gorfodi

Mae gan reoliadau pysgodfeydd ystod o bwrpasau gan gynnwys atal gweithgareddau sy’n cael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd yr amgylchedd morol. Ffocws yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yw lleihau’r prif risgiau o ddiffyg cydymffurfio â’r rheoliadau hynny, er enghraifft peidio ag adrodd neu adrodd yn anghywir, defnyddio gêr pysgota anghyfreithlon, a physgota mewn llefydd gyda chyfyngiadau.

Mae’r awdurdodau gorfodi pysgodfeydd (Cyfarwyddiaeth Forol Llywodraeth yr Alban, yr Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn) yn cymryd camau gorfodi ar sail gwybodaeth, risg neu gamau sy’n ofynnol o dan rwymedigaethau rhyngwladol y DU. Mae gorfodi’r gwahanol reoliadau, yn ddomestig a rhyngwladol, yn unol â’r canllawiau perthnasol ar gyfer rheoleiddwyr. Ar draws y DU, mae ystod o asedau i gefnogi hyn gan gynnwys cychod cydymffurfio, awyrennau cadw llygad, Canolfan Monitro Pysgodfeydd y DU a Swyddogion Gorfodi Morol, sy’n gwneud archwiliadau ffisegol ac mewn swyddfa ar draws y gadwyn olrhain gweithgareddau.

Rhaid i gychod pysgota dros 12 metr fod â Systemau Monitro Cychod (VMS) drwy loeren sy’n gwbl weithredol, a llyfrau log electronig fel bod awdurdodau’n gallu monitro a rheoli gweithgarwch pysgota o bell ac i annog mwy o gydymffurfio. Mae VMS hefyd yn cael ei chyflwyno ar draws y fflyd bysgota o dan 12 metr a bydd yn rhan o’r gyfundrefn fonitro a gorfodi ar gyfer pob math o gychod pysgota ar ôl gorffen ei chyflwyno. Mae deall a gallu monitro a rheoli lle y mae gweithgarwch pysgota’n digwydd yn rhan bwysig o reoli pysgodfeydd, yn enwedig lle y mae cyfyngiadau ardal yn eu lle. Mae data lleoliad cywir a thrylwyr hefyd yn greiddiol i gynorthwyo penderfyniadau cynllunio morol. Mae Monitro Electronig o Bell (REM) hefyd yn cael ei gyflwyno mewn rhannau o’r DU ac ar gyfer rhai cychod pysgota. Gall REM ddarparu data lleoliad mwy manwl ochr yn ochr â defnyddio synwyryddion a chamerâu lle bo’n briodol, i helpu i fonitro gweithgarwch pysgota a darparu dataset mwy helaeth, er enghraifft, am ddalfeydd a sgîl-ddal pysgod. Disgrifir camau penodol yn ymwneud â VMS a REM yn yr adran gweithredu isod.

Mae awdurdodau pysgodfeydd y DU yn gweithredu cyfundrefn trwyddedu cychod pysgota a mesurau rheoli ar draws y gadwyn olrhain gweithgareddau gyfan, o ddal i werthu. Mae’r mesurau hyn yn cynnwys gofynion i gofnodi manylion y ddalfa pan fydd y cwch ar y môr, pwysau’r pysgod a laniwyd, dogfennau cludo a throsglwyddo ar ôl glanio, a nodiadau gwerthu gan brynwyr cofrestredig. Gyda’r dataset cynhwysfawr hwn, gall awdurdodau pysgodfeydd fonitro pysgota a chydymffurfio â rheoliadau lleol a chenedlaethol yn fwy effeithiol.

Nid yw'r mesurau hyn yn benodol i bysgota cegddu ac yn berthnasol i'r fflyd pysgota dyfnforol gyfan. Fel stoc a reolir ar y cyd yn dairochrog, mae'n bwysig bod y FMP yma'n adlewyrchu mesurau priodol wedi eu hadnabod drwy'r grŵp monitro a rheoli.

Mae camau gweithredu i wella'r monitro a gorfodi presennol wedi eu cynnwys yn 'Gweithredu' o dan bolisi 3.

# Ystyriaethau amgylcheddol

## Cyngor cadwraeth

Yn ogystal â gofynion Deddf 2020, mae cynlluniau FMP yn gorfod cwrdd â dyletswyddau a gofynion cyfreithiol yn ymwneud â gwarchod yr amgylchedd morol o dan ddeddfwriaeth fel y Rheoliadau Cynefinoedd, Rheoliadau Strategaeth Forol y DU 2010[17], a Datganiad Polisi Morol y DU[18], Deddf yr Amgylchedd 2021, Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009, a Deddf Forol (Yr Alban) 2010.

Ochr yn ochr â'r gofynion hyn, mae cynlluniau FMP yn ceisio cefnogi ystod o bolisïau amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar wella iechyd ein moroedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, adfer bioamrywiaeth morol a mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd.

I gynorthwyo i ddatblygu polisïau ar gyfer gwarchod yr amgylchedd morol, mae Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB) wedi rhoi cyngor cadwraeth ar gyfer y cynlluniau FMP dyfnforol dan arweiniad yr Alban. Cafodd y cyngor hwn ei ddatblygu ar gyfer pob FMP dyfnforol. Ystyriwyd bod y dull yma'n briodol o ystyried bod yr effeithiau sy'n gysylltiedig â gêr dyfnforol a ddefnyddir yn y pysgodfeydd hyn yn debyg, ond mae'r cyngor hefyd yn ystyried materion FMP-benodol. Mae cyrff SNCB hefyd wedi rhoi cyngor cadwraeth ar wahân i gynlluniau FMP dyfnforol unigol ar gyfer dyfroedd Lloegr.

Mae'r cyngor cadwraeth wedi ystyried risgiau i Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA), Nodweddion Morol Blaenoriaeth (PMF) (dyfroedd yr Alban yn unig) a disgrifiadau Statws Amgylcheddol Da (GES) Strategaeth Forol y DU. Mae'r cyngor yn rhoi llyw ymarferol ar ble y mae'r pryderon mwyaf am wrthdrawiadau rhwng y mathau perthnasol o gêr pysgota a nodweddion dynodedig fel ardaloedd MPA, nodweddion PMF a disgrifiadau Strategaeth Fodol y DU.

Mae'r cyngor ar gyfer cynlluniau FMP dyfnforol yn adnabod cychod rhwydo dyfrgwn, cychod rhwydo pâr, cychod rhwydo gêr agored, a rhwydi dyfnforol – a elwir yn gyfunol yn gychod rhwydo a rhwydi dyfnforol – yn ogystal â rhwydi statig yn targedu maelgwn / môr-lyffantod a leiniau hir yn targedu cegddu, fel y prif fathau o gêr sy'n cael eu hystyried. Ar gyfer cegddu Silff y Gogledd, cychod rhwydo dyfnforol, rhwydi llusg, rhwydi statig a leiniau hir yw'r gêr mwyaf perthnasol.

---

[17] Rheoliadau Strategaeth Forol 2010
[18] Datganiad polisi morol y DU - GOV.UK

Mae'r cyrff SNCP wedi datblygu 'sgôr risg' er mwyn helpu i adnabod ble y mae pysgota'n debygol o gael yr effeithiau mwyaf. Defnyddiwyd graddfa 3 phwynt yn y cyngor cadwraeth: risg isel, cymedrol ac uchel. Mae gweithgareddau gyda risg gymedrol yn nodi y gallai fod angen i awdurdodau rheoli pysgodfeydd gymryd camau ychwanegol i leihau effaith pysgota neu, mewn rhai achosion, gwella'r dystiolaeth er mwyn asesu risg yn fwy cywir yn y dyfodol. Ar gyfer gweithgareddau gyda sgôr uchel, fel rheol awgrymir bod angen gweithredu. Roedd y cyngor yn nodi y byddai gwybodaeth fwy manwl am wahanol fathau o gêr, lleoliad ac ymdrechion pysgota'n helpu i asesu'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â phob FMP ac y gallai newid rhai o'r sgoriau risg.

Mae'r dystiolaeth a'r cyngor sydd wedi'i ddarparu gan gyrff SNCB yn ategu'r gweithredu arfaethedig yn adran 'polisïau' yr FMP hwn, yn benodol Polisi 4: Cwblhau gwaith rheoli cynaliadwy ehangach drwy weithredu i leihau effaith pysgota cegddu ar yr ecosystem forol. Mae polisïau 1 a 2 hefyd yn cynorthwyo'n uniongyrchol i wella disgrifiadau Strategaeth Forol y DU yn ymwneud ag iechyd stociau. Mae'n bwysig nodi bod llawer o gamau gweithredu'r polisïau hyn yn cefnogi gwaith sy'n digwydd yn barod.

Dylid hefyd cydnabod bod y weithred o bysgota'n gyffredinol, wrth natur, yn effeithio ar rywogaethau morol a'r amgylchedd morol y mae cychod yn pysgota ynddo. Fodd bynnag, mae deall a lle bo'n bosib lliniaru'r risgiau a'r effeithiau hyn yn rhan bwysig o reoli pysgodfeydd yn effeithiol. Yn benodol, mae'r angen i gydbwyso gweithredu amgylcheddol ag ystyried y manteision economaidd-gymdeithasol a ddaw o bysgota, yn elfen bwysig o reoli pysgodfeydd.

### Ardaloedd MPA a Nodweddion Morol Blaenoriaeth (PMF) (dyfroedd yr Alban yn unig)

Mae'r cyngor cadwraeth yn awgrymu bod gan bysgodfeydd dyfnforol, gan gynnwys pysgodfeydd cegddu, botensial i effeithio ar nodweddion dynodedig ardaloedd MPA a nodweddion PMF (yn nyfroedd yr Alban) mewn tair ffordd:

- Drwy sgîl-ddal a chordeddu rhywogaethau sy'n nodweddion dynodedig o ardaloedd MPA a nodweddion PMF (dyfroedd yr Alban);
- Drwy dynnu allan y rhywogaethau ysglyfaeth pwysig y mae rhywogaethau dynodedig yn dibynnu arnynt;
- Drwy effeithiau ffisegol ar lawr y môr sy'n arwain at effeithiau cynefin.

Ar gyfer ardaloedd MPA, ystyrir bod y risg o gychod rhwydo a rhwydi llusg dyfnforol yn sgîl-ddal rhywogaethau symudol (e.e. mamaliaid morol ac adar môr) yn **gymedrol**, gyda mwy o risg o bosib i rai rhywogaethau fel yr heulforgi a'r forgath drwynfain yn ogystal â nifer o rywogaethau pysgod dŵr dwfn, fel elasmobranciaid. Bydd casglu tystiolaeth ychwanegol am sgîl-ddal yn helpu i wella'r dystiolaeth ac yn cynorthwyo rheoli gwell gyda'r gweithredu ar gyfer hyn o dan yr adran 'Gweithredu'.

Mae'r sgôr risg ar gyfer sgîl-ddal mewn rhwydi statig a leiniau hir yn **uchel.** Mae peth o'r pysgota am gegddu'n cael ei wneud gyda leiniau hir a rhwydi drysu ac felly'n dod o dan y gofynion data hyn. Disgrifir camau'n ymwneud â hyn yn yr adran 'Gweithredu'.

Yn olaf, mae risg **gymedrol** o dynnu allan gwyniaid ifanc sy'n cael eu hystyried i fod yn fwyd ysglyfaeth pwysig i rywogaethau dynodedig. Mae angen mwy o dystiolaeth o effeithiau ac i gynorthwyo dealltwriaeth.

Ar gyfer nodweddion PMF (dyfroedd yr Alban), ystyrir bod y sgôr risg o sgîl-ddal mewn gêr dyfnforol symudo lyn **gymedrol.** Fodd bynnag, gallai casglu mwy o dystiolaeth i ddeall hyn yn well leihau'r risg yma yn y dyfodol. Mae sgôr risg **cymedrol** hefyd yn cael ei roi i sgîl-ddal nodweddion PMF mewn leiniau hir (wedi'i leihau o'r asesiad MPA oherwydd nid yw'r rhestr PMF yn cynnwys adar). Fodd bynnag, mae monitro sgîl-ddal rhywogaethau masnachol, gan gynnwys pysgod sensitif a rhywogaethau PMF elasmobranciaid ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu ac mae angen mwy o ymchwil i ddeall y risg i'r rhywogaethau hyn. Ystyrir y mater hwn yn yr adran 'gweithredu', sy'n disgrifio'r dystiolaeth bresennol ac ychwanegol sydd angen ei chasglu ynghyd â chamau lliniaru ar gyfer sgîl-ddal, gan gynnwys gweithredu positif eisoes gan y diwydiant pysgota.

Ystyrir bod y sgôr risg ar gyfer effeithiau ffisegol ar nodweddion PMF dyfnforol a chynefin o gêr dyfnforol symudol yn **gymedrol** oherwydd y bydd y nodweddion hyn yn cael eu gwarchod rhywfaint drwy'r broses rheoli ardaloedd MPA. Mae'r cyngor yn nodi bod effeithiau ffisegol gêr dyfnforol statig yn debygol o gyflwyno risg is i rywogaethau gwaelod y môr ond gall fod ardaloedd lle y gallai pysgota statig dwys gael effaith gymedrol ar gynefinoedd PMF a nodweddion benthig drwy aflonyddu'n ffisegol.

Trafodir hyn yn fwy manwl ym Mholisi 4 'Cwblhau gwaith rheoli cynaliadwy ehangach drwy gymryd camau i leihau effaith pysgota cegddu ar yr ecosystem forol'. Mae peth gweithredu i fynd i'r afael â'r effeithiau eisoes ar waith, fel cyflwyno VMS wrth y glannau ac adroddiadau amlach gan systemau VMS; creu cymhellion i ddefnyddio gêr pysgota a thechnegau pysgota dethol sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd; a gweithredu mesurau rheoli pysgodfeydd sy'n cael eu cyflwyno i ardaloedd MPA ac ar gyfer nodweddion PMF (dyfroedd yr Alban).

### Disgrifiadau Strategaeth Forol y DU

O dan Reoliadau Strategaeth Forol y DU[19] rhaid cwblhau gwaith rheoli er mwyn cyflawni neu gynnal GES yn ardal forol y DU. Mae Strategaeth Forol y DU Rhan Tri: Rhaglen Fesurau'r DU yn amlinellu'r gweithredu a'r rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno ar draws y DU i gyflawni hyn.

Roedd ffocws y cyngor cadwraeth ar rywogaethau dyfnforol ar y disgrifiadau mwyaf perthnasol (D1 bioamrywiaeth, D3 pysgod a physgod cregyn masnachol, D4 gweoedd bwyd, D6 undod gwely'r môr a D10 sbwriel morol). Roedd y cyngor hefyd yn nodi y gallai hefyd fod angen ystyried disgrifiadau 'sgrinio-allan' yn y dyfodol a bod statws llawer o'r disgrifiadau presennol yn 'ansicr' neu 'heb ei asesu' ac, wrth i'r dystiolaeth dyfu, y bydd angen diweddaru'r cyngor ar gyfer y disgrifiadau hynny.

Mae'r cyngor cadwraeth wedi adnabod nifer o risgiau o weithgarwch pysgota dyfnforol ar draws y cynlluniau FMP dyfnforol (nid dim ond risgiau penodol i bysgota

[19] Rheoliadau Strategaeth Forol 2010

am gegddu Silff y Gogledd). Roedd yn cynnwys: risg **gymedrol** o gychod rhwydo a rhwydi llusg dyfnforol i gyflawni GES ar gyfer mamaliaid morol ac adar môr o sgîl-ddal a lleihau ysglyfaeth; risg **uchel** i undod gwely'r môr wrth i bysgota dyfnforol aflonyddu ar rywogaethau gwely'r môr; a risg **gymedrol** yn ymwneud â sbwriel morol. Mae yna hefyd risg **uchel** o leiniau hir i gyflawni GES ar gyfer adar môr oherwydd sgîl-ddal.

Trafodir hyn yn fwy manwl ym Mholisi 4 'Cwblhau gwaith rheoli cynaliadwy ehangach drwy gymryd camau i leihau effaith pysgota cegddu ar yr ecosystem forol'. Mae rhai o'r camau gweithredu i fynd i'r afael ag effeithiau eisoes ar waith, fel cyflwyno mesurau rheoli pysgodfeydd penodol lle y mae eu hangen i warchod nodweddion morol penodol, er enghraifft drwy gefnogi cynhyrchu data gofodol gwell ar bysgodfeydd drwy gyflwyno VMS ar gyfer dyfroedd y glannau. Mae'r camau perthnasol mwy hirdymor yn cynnwys cydweithredu ar draws y DU i ddatblygu polisi i leihau / dileu sgîl-ddal rhywogaethau morol sensitif.

O ran sbwriel morol yn benodol, mae gwaith yn parhau yng nghyswllt y Confensiwn ar gyfer Gwarchod Amgylchedd Morol Gogledd-Ddwyrain yr Iwerydd (OSPAR) i weithredu'r ail Gynllun Gweithredu Rhanbarthol ar Sbwriel Morol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu i fynd i'r afael â sbwriel morol o ffynonellau tir a môr, gan gynnwys pysgota.

## Newid hinsawdd

Mae'r sector pysgodfeydd yn wynebu nifer o broblemau newid hinsawdd argyfyngus sy'n gofyn gweithredu ar y cyd a chyd-ddatblygu atebion. Mae'r dystiolaeth wedi cynyddu'n sylweddol yn y degawd diwethaf gyda llawer mwy o ffocws ar effeithiau, addasu[20] a lliniaru[21] yn erbyn newid hinsawdd, gan bolisi a diwydiant.

Mae effeithiau newid hinsawdd i'w gweld yn barod yn yr amgylchedd morol. Rydyn ni eisoes yn gweld mwy o rywogaethau dŵr cynnes yn nyfroedd y DU a llai o rai rhywogaethau dŵr oer, a disgwylir i'r ddwy duedd yma barhau yn y dyfodol. Ar gyfer rhywogaethau fel cegddu, mae'n debyg y bydd addasrwydd cynefin y pysgod hyn yn newid gan arwain efallai at amodau mwy ffafriol i'r rhywogaethau hyn yn nyfroedd y DU yn y tymor hirach. Nid oes dealltwriaeth dda o'r effeithiau ar fiomas, sydd hefyd yn dibynnu ar ffactorau ehangach fel pwysau pysgota, a'r tueddiadau o ran ysglyfaeth a chreaduriaid ysglyfaethus rhywogaethau penodol.

Gall y newid posib i ddosbarthiad rhywogaethau achosi canlyniadau i bysgodfeydd masnachol gan effeithio mae'n debyg ar ymddygiad pysgota, cwotâu pysgota, a bydd angen camau rheoli er mwyn addasu.

[20]Mae **addasu** yn golygu "Yr addasiad mewn systemau economaidd, cymdeithasol neu naturiol mewn ymateb i newid hinsawdd sy'n digwydd yn barod neu y disgwylir iddo ddigwydd, er mwyn cyfyngu canlyniadau niweidiol a manteisio ar gyfleoedd buddiol."
[21]Mae **lliniaru** yn golygu "Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr er mwyn arafu neu atal newid hinsawdd byd-eang"

Mae tystiolaeth yn barod bod newid hinsawdd yn cael effaith ar ddosbarthiad stoc gegddu Silff y Gogledd. Ar y cyfan, mae'r stoc gegddu wedi lleihau gyda'r mapiau dosbarthu diweddar yn dangos bod y biomas ym Môr y Gogledd hefyd wedi lleihau er nad yw'n glir a yw'r olaf yn ymwneud â newid dosbarthiad (h.y. crebachu i gynefin traddodiadol) neu'n lleihad cyffredinol ar draws pob man.
Adlewyrchir y newidiadau hyn yn y cyngor gan ICES er bod angen mwy o waith modelu er mwyn ymchwilio'n fwy manwl i'r canlyniadau mwy hirdymor a pha gamau rheoli sydd eu hangen.

Gall pysgota chwarae rôl bositif mewn mynd i'r afael â newid hinsawdd drwy ddarparu protein ansawdd uchel gydag ôl-troed carbon is. Mae gan awdurdodau polisi'r DU wahanol dargedau ar gyfer newid hinsawdd ac yn datblygu cynlluniau i gefnogi'r ymdrechion tuag at sero net.

I gefnogi gyda chyflawni'r amcan newid hinsawdd yn Neddf 2020, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i wneud penderfyniadau rheoli a chymryd safiadau negodi ar sail tystiolaeth, gan osod cyfyngiadau pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael er mwyn cefnogi gwydnwch parhaus y stociau pysgod a'r fflydoedd pysgota sy'n dibynnu arnynt.

Mae cynlluniau FMP yn disgrifio ein dull o wella neu gynnal cynaliadwyedd stociau pysgod, ac wrth i dystiolaeth ychwanegol gael ei chasglu, bydd hyn yn helpu rheolwyr pysgodfeydd i ymateb i newidiadau yn statws y stociau.

Fel y noda'r llenyddiaeth bresennol i gyd[22] mae'r newidiadau hinsawdd sydd ar gofnod eisoes yn newid dosbarthiad rhywogaethau gan effeithio ar ddigwyddiadau bywyd pwysig fel silio a deori a newid lefelau cynhyrchedd organebau morol. Wrth i ddosbarthiad rhywogaethau masnachol symud yn ddaearyddol, wrth i feysydd pysgota ddod yn fwy neu'n llai pwysig a thywydd eithafol yn digwydd yn amlach o hyd, mae'r effaith ar y diwydiant pysgota'n anochel. Bydd pedair gweinyddiaeth y DU yn gweithio gyda'r diwydiant pysgota i'w helpu i addasu i effeithiau newid hinsawdd ar rywogaethau masnachol pwysig a chyfrannu at yr ymdrechion cyfunol i liniaru'r effaith y mae pysgota'n ei gael ar newid hinsawdd.

Mae nifer o astudiaethau wedi modelu newidiadau mawr a hirdymor yn y dyfodol o ran digonedd a dosbarthiad pysgod wrth ymateb i newid hinsawdd. Fodd bynnag, mae lefel o ansicrwydd o hyd ac mae'n anodd ar hyn o bryd cynhyrchu rhagolygon pendant. Ar y cyfan mae stociau pysgod masnachol yn cael eu rheoli fesul stoc drwy asesiad blynyddol o'r lefelau ecsbloetio a statws ecolegol o'i gymharu â phwyntiau cyfeiriol, fel lefel y pwysau pysgota sy'n cyfateb i MSY. Fodd bynnag, mae MSY a'i gyfradd marwolaethau pysgota gysylltiedig – FMSY – yn sensitif i nodweddion stoc ac amodau hinsawdd[23]. Mae ICES yn rhagdybio bod newid hinsawdd wedi'i ymgorffori'n oblygedig yn y cyngor ar ddalfeydd oherwydd bod yr asesiadau stoc a'r rhagolygon tymor byr yn cael eu gwneud ar sail y data diweddaraf er mwyn

---

[22] Informing Scotland's fisheries policies to be adapted and resilient to climate change and ocean acidification.pdf – Prosiect wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth yr Alban, yn defnyddio adolygiad o'r llenyddiaeth ynghyd ag ymgysylltu ag arbenigwyr, i drafod effeithiau disgwyliedig newid hinsawdd ar stociau pysgod, yr effeithiau tebygol ar ddiwydiant pysgota'r Alban ac i wneud argymhellion ar gyfer llenwi bylchau gwybodaeth a goleuo polisi.
[23] Climate change adaptation in the UK (wild capture) seafood industry - watching brief 2020-21.pdf

amcangyfrif lefelau dal cynaliadwy. Felly mae'r data a ddefnyddir yn cynnwys newidiadau yn nigonedd a / neu ym maint y stoc ar oedran penodol, p'un ai'n newidiadau hinsawdd neu beidio, gan gymryd nad oes angen cyfrif yn benodol am effeithiau newid hinsawdd.

Hefyd, pob (tua) pum mlynedd, mae ICES yn cwblhau trosolygon ecosystem wedi eu targedu at reolwyr pysgodfeydd ac yn cynnwys adran newid hinsawdd sy'n crynhoi'r prif effeithiau newid hinsawdd i'w hystyried, er eu bod ond ar lefel uchel ar hyn o bryd.

Mae'r meincnodi presennol gan ICES[24] a'r cyngor ar ddalfeydd yn cyfrif am newid hinsawdd i raddau, ond yn y tymor hirach efallai na fydd y cyngor un-stoc a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn pysgodfeydd cymysg yn ddigon i reolwyr fod yn gallu rhagweld ac ymateb yn ddigonol i effeithiau newid hinsawdd. Ar lefel ICES, mae senarios pysgodfeydd cymysg ar gael o sut y mae stociau pysgod yn rhyngweithio a byddem yn croesawu symud at y rhain ar gyfer Gorllewin yr Alban.

Mae awdurdodau polisi pysgodfeydd yn awyddus i ddeall hyn yn well wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael.

Yn ogystal ag effeithiau newid hinsawdd ar bysgodfeydd, a bod angen addasu i'r newidiadau hyn, mae hefyd yn bwysig ystyried lliniaru yn erbyn newid hinsawdd (a thargedau sero net) ar gyfer pysgota. Mae'r sector pysgota'n cyfrannu at allyriadau carbon drwy allyriadau'r cychod a thrwy gludo allforion. Mae arferion pysgota sy'n aflonyddu ar wely'r môr (e.e. rhwydo) hefyd yn gallu effeithio ar garbon wedi'i storio mewn cynefinoedd morol (e.e. 'carbon glas').

Mae'r JFS yn nodi'n glir bod angen gwarchod ac adfer cynefinoedd carbon glas i gryfhau gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd. Mae gwaddod morol yn storfa bwysig o garbon glas a gallai aflonyddu ar wely'r môr arwain at ryddhau carbon deuocsid (CO2) yn ôl i'r atmosffer.

Mae ymchwil ar waith ar hyn o bryd i ddeall yn well beth sy'n digwydd i garbon sy'n cael ei aflonyddu drwy bysgota gwely'r môr ac i fesur unrhyw allyriadau atmosfferig. Mae'r gwaith yma'n dechrau adnabod y rhannau o wely'r môr sy'n cynnal y dwyseddau mwyaf o garbon organig a ble y mae'r storfeydd fwyaf agored i ail-fwyno a cholledion oherwydd aflonyddwch. Gallai'r dystiolaeth newydd yma helpu yn y dyfodol i ystyried mesurau ar gyfer lleihau effeithiau pysgota dyfnforol ar garbon glas (e.e. drwy fesurau rheoli pysgodfeydd gofodol neu dechnegol).

Mae wedi'i amcangyfrif bod allyriadau fflyd bysgota'r DU yn 2019 yn 802 kt CO2e sy'n cyfateb i 0.18% o holl allyriadau tirol y DU neu 0.66% o allyriadau trafnidiaeth ddomestig y DU[25]. Y cychod fflyd gyda'r allyriadau mwyaf yw'r cychod rhwydo cefnforol dros 40m, cychod Nephrops Môr y Gogledd dros 300kW, ac yn nyfroedd Lloegr, cychod gêr agored y De-Orllewin (dros 250 kW). Cychod gêr agored Môr y

[24] Mae prosesau meincnodi ICES wedi eu trefnu i werthuso (a chynnig gwelliannau i) y data presennol a'r fethodoleg asesu ar gyfer stociau penodol a phynciau di-bysgodfa y mae ICES yn rhoi cyngor rheolaidd arnynt y tu allan i'r cylch asesu blynyddol. Mae prosesau meincnodi'n agored i arbenigwyr a rhanddeiliaid ac yn cael eu hadolygu gan arbenigwyr allanol. (WKBHMB)
[25] Tuag at Bysgodfeydd Carbon Sero Net - MF1291

Gogledd dros 300kW sydd â'r ôl-troed carbon (kg $CO_2e$ / kg o bysgod) mwyaf, tua 15kg o $CO_2e$ am bob kg o bysgod sy'n cael ei lanio[26]

Mae mynd i'r afael â llawer o'r heriau hyn y tu allan i gwmpas yr FMP hwn. O dan yr amcan newid hinsawdd yn Neddf 2020 a'r JFS, a hefyd mewn strategaethau cenedlaethol fel Strategaeth Rheoli Pysgodfeydd yr Alban, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i gefnogi pysgodfeydd yn yr ymdrechion tuag at sero net gan ystyried ble a sut y mae angen addasu ein dulliau i ystyried effeithiau newid hinsawdd.

Nid yw darparu strategaethau lliniaru ar gyfer newid hinsawdd o fewn cwmpas y fersiwn gyntaf yma o'r FMP. Fodd bynnag, mae'r FMP yn cynnwys amcan i ystyried opsiynau ar gyfer sut i addasu rheoli pysgodfeydd i heriau a gyflwynir gan y newid mewn amodau hinsawdd. Bydd yr FMP hwn yn cael ei adolygu a'i addasu wrth i ymchwil i newid hinsawdd ddatblygu a dulliau newydd o fynd i'r afael â heriau newid hinsawdd ddod ar gael.

# Polisïau'r FMP

Wrth ddatblygu'r polisïau a'r gweithredu ar gyfer yr FMP hwn, mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi ystyried y tirlun polisi presennol gan gynnwys cytundebau a datganiadau rhyngwladol perthnasol, cyngor cadwraeth a datblygiadau polisi ehangach sydd eisoes ar y gweill, a hefyd pa dystiolaeth, mesurau neu bolisïau ychwanegol a allai fod eu hangen i gefnogi gweledigaeth yr FMP hwn a bod amcanion pysgodfeydd yn cael eu darparu. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y camau gweithredu unigol yn yr FMP hwn yn cysylltu'n uniongyrchol i un neu fwy o amcanion pysgodfeydd, nodir y rhain isod. Cynlluniau FMP yw un o'r ffyrdd o gefnogi cyflawni'r amcanion pysgodfeydd er nad yr unig offeryn polisi sydd ar gael i wneud hyn. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd wedi ystyried y cyngor cadwraeth gan y byrddau SNCB ac wedi cynnwys allbynnau'r gwaith hwnnw wrth ystyried ble y gallai fod angen gweithredu polisi.

Mae'r FMP hwn wedi cael ei ddatblygu o fewn cyd-destun ehangach y Cynlluniau Morol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fel rhan o ddatblygu'r cynllun morol cenedlaethol newydd ar gyfer yr Alban, bydd y berthynas rhwng cynllunio gofodol morol a chynlluniau FMP hefyd yn cael ei hystyried a sut y gall y polisïau hyn weithio'n gydgysylltiedig i sicrhau y gwneir defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau a'r gofod morol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r amcanion a'r egwyddorion a amlinellir yn y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE wrth ystyried gweithredu mesurau rheoli pysgodfeydd.

Yn yr Alban, bydd y polisïau hyn yn helpu i gyflawni'r canlyniadau yn y Cynllun Cenedl Bwyd Da, a'n gweledigaeth bod yr Alban yn dod yn "Genedl Bwyd Da lle mae pobl o bob cefndir yn falch ac yn cael pleser o'r bwyd maen nhw'n ei gynhyrchu, yn ei brynu, yn ei goginio, yn ei weini ac yn ei fwyta bob dydd, ac yn elwa o hynny".

[26] Asesu allyriadau nwyon tŷ gwydr fflyd bysgota'r DU - Pysgod Môr

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen mwy o waith datblygu polisi cyn cytuno ar weithredu newydd, a allai gynnwys casglu mwy o dystiolaeth neu ymgynghori cyhoeddus, ynghyd â chwblhau asesiadau effaith priodol. Dylid hefyd nodi bod cegddu Silff y Gogledd yn stoc a reolir ar y cyd a bod cyfleoedd pysgota cyffredinol, felly, yn cael eu penderfynu drwy negodi rhyngwladol. Mae'r stoc hefyd yn destun gwahanol fesurau rheoli mewn rhannau gwahanol o'r môr gan Barthau Arfordirol unigol.

Oherwydd bod y stoc yn cael ei rhannu â Pharthau Arfordirol eraill, byddwn yn ceisio gweithio'n gydweithredol i gyd-ddarparu gwaith rheoli cynaliadwy a chyfleoedd dal ar gyfer y stoc hon.

Mae'r ddau bolisi cyntaf isod yn ymwneud yn bennaf â rheoli stoc gyda gweddill y polisïau'n disgrifio gweithredu'n ymwneud â rheoli cynaliadwy ehangach. Mae'r pysgodfeydd cegddu o dan yr FMP hwn uwchlaw pwyntiau cyfeiriol biomas MSY ar hyn o bryd. Er bod peth tystiolaeth i ddangos bod digonedd y stoc gegddu'n lleihau, barn yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yw bod y trefniadau rheoli presennol, yn benodol rhai'n ymwneud â phenderfynu dalfeydd TAC, yn ddigon i reoli digonedd y stoc, yn enwedig os gellir cyflawni'r dyhead am symud y stoc at drefniant rheoli tairochrog gyda'r UE a Norwy.

## Polisi 1: Cynaeafu stoc gegddu Silff y Gogledd yn gynaliadwy, gyda biomas yn cael ei gynnal uwchlaw'r lefel a allai gynhyrchu MSY

### Rhesymeg

Prif nod cynlluniau FMP, fel yr FMP hwn ar gyfer cegddu Silff y Gogledd lle y mae digon o dystiolaeth wyddonol er mwyn gallu asesu MSY stoc, yw cyflwyno polisïau i'r pwrpas o adfer neu gynnal stociau pysgod i lefelau cynaliadwy neu gyfrannu at adfer neu gynnal ar lefelau cynaliadwy. Mae hyn yn unol ag adran 6(3)(a) Deddf 2020. Fel rhan o hyn, rôl rheolwyr pysgodfeydd yw helpu i sicrhau bod stociau'n cael eu cynaeafu'n gynaliadwy er mwyn diogelu hyfywedd hirdymor y stociau a'r pysgodfeydd sy'n eu herlyn.

Mae defnyddio dalfeydd TAC yn rhan sylfaenol o reoli cynaliadwy a'r egwyddorion negodi y mae'r DU yn eu dilyn i helpu i sicrhau bod y pwysau o bysgota wrth gynaeafu cegddu Silff y Gogledd yn aros ar lefelau cynaliadwy, gan hefyd ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn gyson ag amcan cynaliadwyedd Deddf 2020.

Gall iechyd stociau pysgod newid dros amser a chael ei effeithio hefyd gan wahanol ffactorau, nid dim ond pysgota. Pan gynhyrchwyd yr FMP hwn, roedd y stoc gegddu'n cael ei physgota'n gynaliadwy o fewn cyfyngiadau MSY. Mae hyn yn awgrymu bod y dull presennol yn cyfrannu at gynnal lefelau cegddu cynaliadwy.

Ffocws y gweithredu isod felly yw sicrhau bod hyn yn parhau. Mae hyn yn unol ag adran 6(3)(a) Deddf 2020. Mae'r gweithredu hefyd yn adlewyrchu bod y stoc yn cael ei rheoli'n rhyngwladol felly mae cynnal y stoc uwchlaw'r lefelau sy'n gallu cynhyrchu MSY wedi digwydd o ganlyniad i reoli ar y cyd.

## Gweithredu

### Gweithredu ar waith yn barod

- Parhau i benderfynu cyfleoedd pysgota ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael ac yn unol â dull MSY.
- Parhau i ystyried effaith gweithgarwch pysgota, ynghyd â thystiolaeth o sut y mae pysgodfeydd cymysg yn rhyngweithio, wrth benderfynu dalfeydd TAC.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid y Parthau Arfordirol er mwyn parhau i gynaeafu'r stoc yn gynaliadwy drwy negodi rhyngwladol.

### Gweithredu tymor canolig i hir (tair i bum mlynedd)

- Parhau i weithio gyda'r Parthau Arfordirol i gytuno ar LTMP ar gyfer cegddu Silff y Gogledd, gan gynnwys ystyried opsiwn i'r dyfodol o drefniant tairochrog ar gyfer rheoli stoc gegddu Silff y Gogledd.

## Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan cynaliadwyedd
- yr amcan rhagofalus
- yr amcan tystiolaeth wyddonol
- yr amcan ecosystem

# Polisi 2: Defnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael i gynorthwyo penderfyniadau rheoli wrth benderfynu cyfleoedd pysgota cynaliadwy

## Rhesymeg

Mae'r polisi hwn yn unol ag adran 3.2 ('Gwyddoniaeth a Thystiolaeth') y JFS.

Yn ddiweddar (2022), mae ICES wedi cwblhau ymarfer meincnodi ar gyfer cegddu ac mae gan y stoc lefel gadarn o dystiolaeth a data gwyddonol ar ei chyfer[27] sydd eisoes yn cynorthwyo awdurdodau polisi pysgodfeydd i asesu'r MSY ar gyfer y stoc a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth wrth benderfynu cyfleoedd pysgota.

[27] ICES. 2023. Gweithdy meincnodi ar fôr-lyffantod a chegddu (WKANGHAKE; allbynnau cyfarfod 2022). Adroddiadau Gwyddonol ICES. 5:17. t.354. http://doi.org/10.17895/ices.pub.20068997.

Mae tystiolaeth wyddonol yn hanfodol i sicrhau y rheolir pysgodfeydd yn briodol a chynaliadwy. Mae gwaith helaeth yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol a rhyngwladol i sicrhau bod y dystiolaeth wyddonol yn drylwyr a diweddar.

Mae'r gweithredu isod yn ymwneud â pharhau i gasglu data a pharhau gyda'r dull gwyddonol, ynghyd ag ystyried gwelliannau mwy hirdymor, er enghraifft drwy ddefnyddio dulliau uwch-dechnoleg.

Nid yw peth o'r gweithredu'n benodol i'r stoc gegddu ond, yn hytrach, yn weithredu cyffredinol sy'n ategu dull ehangach y DU o gasglu a defnyddio data gwyddonol fel rhan o reoli pysgodfeydd.

**Gweithredu ar waith yn barod**

- Parhau i wneud arolygon gwyddonol a chwblhau monitro ar fwrdd y cychod ac ar y lan, a chyfrannu at weithgorau ICES i gefnogi'r ymdrechion presennol o gasglu data a chynnal y dystiolaeth wyddonol ryngwladol sy'n cynorthwyo i benderfynu cyfleoedd pysgota cynaliadwy.

- Parhau i gymryd rhan mewn asesiadau stoc rhyngwladol a chyfrannu at y broses o gynhyrchu cyngor rhyngwladol.

**Gweithredu tymor canolig i hir (tair i bum mlynedd)**

- Datblygu a defnyddio ffrydiau data ychwanegol a newydd, gan gynnwys defnyddio data o dechnoleg newydd fel REM.

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan cynaliadwyedd
- yr amcan tystiolaeth wyddonol

## Polisi 3: Mynd i'r afael â phroblemau taflu ym mhysgodfa gegddu Silff y Gogledd a sicrhau bod pob dalfa, lle bo'n bosib, yn cael eu cyfrif yn erbyn cwotâu

### Rhesymeg

Mae'r polisi hwn yn unol ag adran 4.2.8 ('Lleihau Sgîl-ddal a Dal Llai o Rywogaethau Sensitif') yn y JFS.

Fel gyda stociau pysgod eraill sy'n cael eu dal fel rhan o bysgodfa dyfnforol y DU, mae problemau o hyd gyda thaflu anghyfreithlon sydd ddim yn cael ei adrodd. Nid yw hyn yn unigryw i gegddu, mae'n digwydd ar draws pysgodfeydd dyfnforol y DU a thu hwnt.

Mae'r broblem hon yn golygu ei bod yn anodd rhoi cyfrif llawn am yr holl bysgod sy'n cael eu dal, gan wneud rheoli cynaliadwy hirdymor yn anodd a thanseilio hyder yn y bysgodfa.

Mae nifer o ffactorau hanesyddol y tu ôl i daflu, gan gynnwys diffyg cwota a dal pysgod rhy fach na ellir eu gwerthu ar gyfer eu bwyta neu nad oes marchnad barod ar eu cyfer. Mae'r problemau hyn yn gydnabyddedig ac yn un o'r rhesymau y tu ôl i gyflwyno'r rhwymedigaeth glanio. Un agwedd allweddol ar fynd i'r afael â thaflu yw bod angen sicrhau bod y mesurau technegol iawn yn eu lle i ddal llai o bysgod dieisiau (sy'n gallu cynnwys rhywogaethau di-darged a tharged o dan yr MCRS cyn eu dal). Mae ystod eang o fesurau dewis gêr a mesurau eraill yn eu lle i gefnogi hyn ac mae'r diwydiant pysgota eu hunain yn addasu eu dulliau drwy fod yn fwy dethol wrth ddewis gêr ar gyfer eu cychod. Mae gwelliannau pellach hefyd yn bosib ac adlewyrchir hyn yn y gweithredu isod.

Fel y trafodwyd eisoes, mae eisoes yn gyfreithiol ofynnol i bysgotwyr lanio pob rhywogaeth o bysgod cwota, gan gynnwys cegddu, o dan y rhwymedigaeth glanio, a sicrhau bod pob dalfa'n cael ei chyfrif a'i chofnodi. Mae gan awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU wahanol ddulliau yn eu lle neu ar y gweill i wella gweithrediad y ddeddfwriaeth bresennol a chofnodi dalfeydd, ac mae hyn yn cynnwys cyflwyno technoleg newydd gan gynnwys REM. Amlinellir gweithredu i gynorthwyo mwy o atebolrwydd a gwella cofnodi dalfeydd isod.

## Gweithredu

### Gweithredu tymor byr (un i ddwy flynedd)

- Yn amodol ar ymgynghori ac asesu'n briodol, cyflwyno mesurau technegol gorfodol newydd i gynorthwyo dal llai o rywogaethau dieisiau drwy fod yn fwy dethol o ran gêr. Yn yr Alban bydd hyn yn digwydd fel rhan o raglen waith Polisi Dal y Dyfodol.

- Gwella'r trefniadau rheoli a'r rheolau presennol i sicrhau, lle bo'n bosib bob tro, y gellir cyfrif am bob dalfa o bysgod yn erbyn cwotâu. Yn yr Alban bydd hyn yn digwydd fel rhan o raglen waith Polisi Dal y Dyfodol.

### Gweithredu tymor hir (tair i bum mlynedd)

- Datblygu map ffordd ar gyfer cyflwyno REM i bysgodfeydd blaenoriaeth ar draws y DU, gyda meini prawf blaenoriaethu clir ac amserlen weithredu.

- Cefnogi a chynorthwyo pysgotwyr i ddatblygu a defnyddio mathau mwy dethol o gêr pysgota ac arferion arloesol, er enghraifft drwy ddarparu cyllid neu ganiatáu treialon gêr.

- Cydweithredu â'r Parthau Arfordirol i gytuno ar weithredu ar y cyd i ateb y broblem taflu a mesurau technegol gwell drwy'r fforwm Parthau Arfordirol.

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan sgîl-ddal
- yr amcan tystiolaeth wyddonol
- yr amcan cynaliadwyedd

## Polisi 4: Cwblhau gwaith rheoli cynaliadwy ehangach drwy gymryd camau i leihau effaith pysgota cegddu ar yr ecosystem forol

### Rhesymeg

Mae'r polisi hwn yn unol ag adran 4 ('Rheoli Pysgodfeydd yn Gynaliadwy') yn y JFS.

Mae pob math o bysgota'n cael effaith ar yr amgylchedd morol ac ecosystemau morol i wahanol raddau, p'un ai drwy dynnu allan rhywogaethau pysgod targed, sgîl-ddal pysgod di-darged neu rywogaethau morol eraill yn ddamweiniol, neu ddod ar draws gwely'r môr.

Mae deall a lleihau'r effeithiau hyn yn rhan bwysig o ddarparu dull seiliedig ar ecosystem o weithredu. Ar y cyfan mae'r diwydiant pysgota'n ymwybodol o'i effaith ar yr amgylchedd morol ac wedi cymryd nifer o gamau dros y blynyddoedd i geisio lliniaru yn erbyn hyn, er enghraifft drwy ddefnyddio gêr pysgota mwy dethol neu dreialu dulliau newydd er mwyn sgîl-ddal llai o rywogaethau di-bysgod ac adar môr. Mae'r cyngor cadwraeth sy'n ategu'r FMP hwn wedi adnabod rhai effeithiau a bylchau tystiolaeth sydd angen sylw er mwyn lleihau effeithiau pysgota ar yr amgylchedd morol ehangach. Mewn rhai achosion, mae gweithredu eisoes ar waith ac ystod o bolisïau a rhaglenni yn eu lle'n barod neu ar y gweill ar draws y DU sy'n cyfrannu at hyn. Gan hynny efallai nad yw'r gweithredu yn yr FMP hwn yn unigryw na'n newydd, a thrwy gydnabod bod gan dechnegau pysgota dyfnforol sy'n targedu pysgod gwyn cymysg elfennau tebyg, nac ychwaith yn benodol i bysgodfa gegddu Silff y Gogledd.

Mae Llywodraeth yr Alban yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector pysgota ac academia i ddatblygu a phrofi mesurau lliniaru effeithiol (e.e. rhubanau dychryn) i sgîl-ddal llai o adar môr yn y bysgodfa leiniau hir ddyfnforol. Bydd y mesurau technegol hyn yn cael eu defnyddio yn y bysgodfa lle bo'n ofynnol.

Mae pysgota cegddu'n aml yn defnyddio technegau pysgota gwely'r môr. Mae cyngor cadwraeth wedi adnabod y gall pysgota gwely'r môr gael effaith niweidiol ar undod gwely'r môr a chynefinoedd benthig. Mae'r gweithredu isod yn cydnabod y gwaith a wneir yn barod i fonitro ôl-troed gofodol pysgota'n well, ac i gyflwyno

mesurau rheoli pysgodfeydd penodol lle y mae eu hangen i warchod nodweddion morol penodol.

Mae’r cyngor cadwraeth hefyd yn awgrymu y gall elfennau o bysgota dyfnforol, yn enwedig wrth ddefnyddio leiniau hir neu rwydi drysu (defnyddir y ddau ddull i bysgota cegddu) gyflwyno risg o sgîl-ddal rhai rhywogaethau sensitif. Mae’r cyngor cadwraeth wedi adnabod bod angen tystiolaeth well o sgîl-ddal, ac mae’r gweithredu isod yn cydnabod bod angen mwy o dystiolaeth i gynorthwyo’r gweithredu yn y maes hwn, ynghyd â pharhau gyda’r gwaith da sy’n cael ei wneud yn barod. Mae’n werth nodi bod Llywodraeth yr Alban yn gweithio mewn partneriaeth â’r sector pysgota ac academia i ddatblygu a phrofi mesurau lliniaru effeithiol (e.e. rhubanau dychryn) i sgîl-ddal llai o adar môr yn y bysgodfa leiniau hir ddyfnforol. Bydd y mesurau technegol hyn yn cael eu defnyddio yn y bysgodfa lle bo’n ofynnol.

## Gweithredu

### Gweithredu tymor byr (un i ddwy flynedd)

- Parhau’r gwaith a wneir yn barod i ddeall yn well beth yw effeithiau aflonyddu ar gynefinoedd benthig, drwy gynorthwyo data gofodol mwy cywir ar bysgodfeydd yn defnyddio VMS ar gyfer cychod pysgota bach o dan 12m, a sicrhau adroddiadau amlach gan systemau VMS ar gyfer cychod pysgota 12m o hyd neu hirach.

- Parhau i weithredu mesurau rheoli pysgodfeydd ar gyfer yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA), os nad ydynt eisoes yn eu lle, a hefyd ar gyfer y Nodweddion Morol Blaenoriaeth (PMF) mwyaf bregus yn nyfroedd y glannau yn yr Alban (0-12 môr-filltir). Cynigiwn gyfyngiadau pysgota safle-benodol i sicrhau y gellir cyflawni amcanion cadwraeth a chynorthwyo i sicrhau y gwneir defnydd cynaliadwy o’r amgylchedd morol.

- Cydweithredu ar draws y DU i weithredu Rhaglen Fesurau (POM) Strategaeth Forol y DU.

- Cefnogi a chynorthwyo’r diwydiant pysgota i ystyried opsiynau gêr eraill a allai helpu i leihau effeithiau benthig a sgîl-ddal rhywogaethau morol sensitif, gan gynnwys adar môr, er enghraifft drwy ddarparu cyllid neu eithriadau trwydded, gan adeiladu ar y gwaith da sy’n cael ei wneud yn barod ar hyn.

- Cyflwyno mesurau osgoi sgîl-ddal gwirfoddol a gorfodol ychwanegol lle bo angen. Yn yr Alban bydd hyn yn digwydd fel rhan o raglen waith Polisi Dal y Dyfodol.

### Gweithredu tymor canolig i hir (tair i bum mlynedd)

- Parhau i gyflwyno REM ar gyfer rhannau allweddol o fflyd bysgota’r DU er mwyn gwella data a gwybodaeth am weithgarwch pysgota, er enghraifft i fonitro sgîl-ddal rhywogaethau morol sensitif a gwella’r data gofodol ar leoliad gweithgarwch pysgota, gyda map ffordd a chynllun gweithredu clir yn eu lle.

- Parhau i gasglu data mewn fflydoedd blaenoriaeth o dan Raglen Lliniaru Sgîl-Ddal y DU er mwyn deall y risg a pha mor aml y mae pysgota'n dod ar draws rhywogaethau sensitif yn well, a pha mor effeithiol yw'r mesurau lliniaru ac osgoi presennol.

- Parhau i gyflwyno gweithredu o dan Raglen Lliniaru Sgîl-Ddal y DU er mwyn lleihau risg, pa mor aml ac effaith pysgodfeydd ar rywogaethau morol sensitif gan gynnwys adar môr.

  Cydweithredu ar draws y DU i ddatblygu polisi ar gyfer lleihau / dileu sgîl-ddal rhywogaethau morol sensitif yn y DU drwy rannu gwybodaeth yn rheolaidd rhwng y gwledydd, a gweithio'n gydweithredol ar brosiectau.

- Parhau i gasglu data ar fflydoedd pysgod gwyn a chorgimychiaid yr Alban drwy Raglen Arsylwi Dyfnforol yr Alban er mwyn deall y risg a pha mor aml y mae pysgota'n dod ar draws rhywogaethau sensitif yn well, a pha mor effeithiol yw'r mesurau lliniaru ac osgoi presennol, lle bo'n briodol.

- Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd yn parhau i annog defnyddio gêr pysgota a thechnegau pysgota dethol sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd.

- Gwerthuso'r gweithredu tymor byr a ddisgrifir uchod ynghyd ag effeithiau cronnus polisïau gofodol morol ehangach fel ynni adnewyddadwy ar y môr, er mwyn penderfynu a allai fod angen mesurau ychwanegol yn y dyfodol i leihau aflonyddwch benthig.

- Hyrwyddo'r arferion da presennol yn y diwydiant pysgota o ran trin rhywogaethau morol sensitif a'u dychwelyd i'r môr heb gael niwed, lle y mae'n ymarferol gwneud hynny.

### Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan cynaliadwyedd
- yr amcan ecosystem
- yr amcan sgîl-ddal

## Polisi 5: Cefnogi busnesau pysgota i ddarparu manteision economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i gymunedau

### Rhesymeg

Mae gan Lywodraeth y DU uchelgais o gefnogi pysgodfeydd i barhau i ddarparu manteision cymdeithasol ac economaidd i gymunedau arfordirol er lles cenedlaethau heddiw ac yfory. Fel y noda'r FMP hwn eisoes, mae cegddu Silff y Gogledd yn rhan

bwysig o bysgodfa gymysg y DU a hefyd yn rhan o bysgodfa darged benodol sy'n elfen bwysig ar gyfer marchnadoedd rhanbarthol a chymunedau sy'n dibynnu ar bysgota. Mae'n rhan bwysig o'r model busnes ar gyfer ystod o wahanol fusnesau pysgota sydd, yn eu tro, yn cynnal swyddi ac ategu cymunedau lleol gan ddarparu ffynhonnell o fewnbwn ac allbwn economaidd ac ategu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog y DU ar lefel leol a chenedlaethol. Mae pysgod hefyd yn ffynhonnell dda o brotein ac yn elfen bwysig o gynhyrchu bwyd yn y DU.

Mae gan Lywodraethau rôl barhaus i'w chwarae mewn helpu i greu'r amodau iawn fel y gall busnesau weithredu'n gynaliadwy a gyda sicrwydd am y dyfodol.

## Gweithredu

### Gweithredu tymor byr ac ar waith (un i ddwy flynedd)

- Parhau i ystyried ystyriaethau economaidd-gymdeithasol fel rhan o negodi rhyngwladol a rhan o'r broses o benderfynu cyfleoedd pysgota.

- Parhau i gasglu a defnyddio tystiolaeth ar agweddau economaidd y bysgodfa i sicrhau bod penderfyniadau rheoli'n seiliedig ar y dystiolaeth orau ar gael. .

- Annog a chefnogi mesurau hyrwyddo bwyta a gwerth cegddu.

### Gweithredu tymor canolig i hir (tair i bum mlynedd)

- Ystyried casglu data cymdeithasol ac economaidd ehangach gyda ffocws ar wahaniaethau rhanbarthol y pysgodfeydd. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau rheoli  rhanbarthol sy'n adlewyrchu gwahaniaethu ar draws dyfroedd y DU yn y pysgodfeydd cegddu a'u pwysigrwydd cymharol i economïau arfordirol rhanbarthol.

## Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan mynediad cyfartal
- yr amcan budd cenedlaethol
- yr amcan cynaliadwyedd

# Polisi 6: Lleihau effaith pysgota ar newid hinsawdd a chefnogi'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau newid hinsawdd

## Rhesymeg

Mae nod y polisi hwn yn unol ag adran 4.1 ('Rheoli Pysgodfeydd yn Gynaliadwy – Ein Dull o Reoli Pysgodfeydd') yn y JFS.

Mae'r dystiolaeth sy'n ategu newid hinsawdd a physgodfeydd yn datblygu ac mae angen mwy o waith i ddeall yn llawn a) sut i leihau allyriadau carbon mewn ffordd gynaliadwy, a b) effeithiau tebygol newid hinsawdd ar stociau pysgod a chymunedau pysgota a maint / natur y newid sydd ei angen i addasu.

Gwyddom fod newidiadau'n barod i ddosbarthiad a chyfansoddiad maint y stoc gegddu o ganlyniad i newid hinsawdd, ond nid ydyn ni eto'n deall yr effeithiau cyffredinol yn iawn. Mae'r gweithredu isod yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar, a defnyddio, tystiolaeth well i wneud penderfyniadau gwybodus am gamau rheoli ar gyfer y dyfodol.

O'i gymharu â mathau eraill o gynhyrchu bwyd, gall pysgota ddarparu dull cynhyrchu protein uchel a charbon isel a chynnig cyfle i ddarparu diogelwch bwyd, yn enwedig wrth i ni symud tuag at sero net.  Fodd bynnag, gwyddom hefyd fod angen i gychod pysgota leihau allyriadau tanwydd yn y dyfodol er nad oes atebion parod yn eu lle ar hyn o bryd i gychod pysgota eu gweithredu.

Bydd y gweithredu isod hefyd yn berthnasol i stociau eraill yn y bysgodfa. Fodd bynnag, wrth i'r dystiolaeth gynyddu, gallwn ddeall effeithiau penodol newid hinsawdd ar gegddu'n well a faint o newid fydd ei angen i helpu cychod sy'n pysgota cegddu i leihau eu hallyriadau ac addasu hefyd i newidiadau yn y stoc gegddu ac amodau pysgota'n gyffredinol. Mae'r camau gweithredu hyn yn debygol o addasu a chael eu diwygio dros amser.

Mae mesurau posib a allai gynorthwyo hyn eisoes ar y gweill a / neu ar waith. Bydd yr FMP yn cefnogi'r mesurau hyn er nad yw'n eu cyflwyno neu ddarparu'n uniongyrchol.

## Gweithredu

### Gweithredu tymor canolig i hir (tair i bum mlynedd)

- Cydweithredu â phartneriaid ar draws llywodraeth a'r sectorau diwydiant ac academaidd ar fesurau i leihau effaith pysgota cegddu Silff y Gogledd ar yr amgylchedd (gan gynnwys allyriadau CO2).

- Cydweithredu ar draws y DU ac yn rhyngwladol ar gasglu mwy o dystiolaeth a gwneud mwy o waith dadansoddi i ddeall effaith newid hinsawdd ar gegddu a datblygu opsiynau ar gyfer sut y gallai'r bysgodfa gegddu addasu i effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol.

- Wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael am newid hinsawdd, ystyried beth fydd goblygiadau hynny.

## Amcanion perthnasol y Ddeddf Pysgodfeydd

Yr amcanion perthnasol yn y Ddeddf Pysgodfeydd yw:

- yr amcan cynaliadwyedd

- yr amcan newid hinsawdd

# Gweithredu a Monitro

## Gweithredu

Mae'r FMP hwn yn cynnig gweithredu newydd ond heb eu gweithredu. Bydd y gweithredu yn yr FMP hwn yn cael eu rhoi ar waith ar ôl ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod llawer o'r camau gweithredu ar waith yn barod ac yn rhan o raglenni darparu aml-flwyddyn.

## Dangosyddion ar gyfer monitro effeithiolrwydd y cynllun a'r broses adolygu

Mae'r FMP hwn yn cynnwys nifer o bolisïau a chamau gweithredu i sicrhau bod y bysgodfa gegddu y mae'r FMP hwn yn sôn amdani'n parhau i gael ei physgota'n gynaliadwy o ran dull MSY a hefyd i gefnogi gwelliannau fel rhan o'r dull rheoli cyffredinol.

Mae asesiadau stoc ICES yn asesu sut y mae poblogaethau pysgod wedi newid dros amser ac effaith pwysau pysgota ar stociau. Rhoddir dangosyddion biolegol allweddol fel pwyntiau cyfeiriol, sy'n rhoi arwydd tuag at eu MSY, pwysau pysgota a biomas stoc silio. Mae awdurdodau polisi pysgodfeydd yn adolygu asesiadau stoc ICES yn flynyddol i benderfynu sut y mae stociau'n perfformio yn erbyn y pwyntiau cyfeiriol hyn, ac unrhyw bwyntiau cyfeiriol eraill sy'n cael eu cynnwys yn y cyngor[28].

Bydd iechyd y stoc yn parhau i gael ei hadolygu fel hyn fel rhan o'r cylch negodi parhaus, yn defnyddio proses asesiadau stoc ICES, a hefyd yn cael ei hadolygu'n fwy manwl fel rhan o broses meincnodi ICES (sy'n amrywio o un stoc i'r llall). Iechyd y stoc fydd y dangosydd a ddefnyddir i fonitro pa mor effeithiol fydd yr FMP hwn gyda rheoli stoc gegddu Silff y Gogledd yn gynaliadwy.

Bydd y polisïau a'r gweithredu yn yr FMP hwn yn cael eu hadolygu fel rhan o'r cylch adolygu 3 blynedd ar gyfer y JFS. Hefyd, fel y noda Deddf 2020 a'r JFS, bydd yr FMP hwn yn cael ei adolygu pob chwe blynedd o leiaf. Gallai adolygiad ddigwydd yn gynt os yw'r dystiolaeth berthnasol neu rwymedigaethau rhyngwladol yn newid, neu oherwydd digwyddiadau ehangach. Yr awdurdodau polisi pysgodfeydd sy'n penderfynu a wneir adolygiad cynt. Bydd adolygu'r FMP yn cynnwys adroddiad ar bolisïau a chamau gweithredu unigol ac a gawsant a) eu gweithredu a b) a gafwyd unrhyw gysylltiad hysbys rhwng y gweithredu ac iechyd y stoc.

[28] CEFAS (2024) Asesu cynaliadwyedd cyfyngiadau dal pysgodfeydd wedi eu negodi gan y DU ar gyfer 2024 - GOV.UK (www.gov.uk)
Cynaliadwyedd Stociau Pysgod | Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol

# Geirfa

**CO2e -** Carbon Deuocsid cyfatebol
Mesur metrig a ddefnyddir i gymharu allyriadau o wahanol nwyon tŷ gwydr ar sail eu potensial cynhesu byd-eang.

**ICES -** Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr
Sefydliad byd-eang sy'n datblygu gwyddoniaeth a chyngor i gefnogi defnydd cynaliadwy o'r cefnfor.

**MSY -** Y Ddalfa Fwyaf sy'n Gynaliadwy
Y ddalfa fwyaf sy'n gynaliadwy (MSY) ar gyfer stoc bysgod sef y ddalfa flynyddol fwyaf bosib y gellir ei gynnal dros amser, drwy gadw'r stoc ar lefel sy'n gallu cynhyrchu twf. Mae'r MSY yn cyfeirio at gyflwr cytbwys damcaniaethol rhwng y boblogaeth a bysgotir a'r gweithgarwch pysgota.
Wrth drafod "MSY", mae'n hanfodol gwahaniaethu rhwng 3 cysyniad cysylltiedig: MSY, BMSY ac FMSY.

**Trothbwynt biomas MSY**
Y trothbwynt biomas MSY yw'r paramedr yn fframwaith MSY ICES sy'n ysgogi cyngor ar lai o farwolaethau pysgota yng nghyswllt FMSY.

**BMSY -** Biomas y Ddalfa Fwyaf sy'n Gynaliadwy
Cefnogir MSY gan boblogaeth o faint sefydlog a elwir yn BMSY (= "biomas MSY"). O ganlyniad, mae "cyrraedd MSY" yn golygu ail-godi'r boblogaeth bysgod i'r lefel BMSY er mwyn gallu cynnal lefel y dalfeydd blynyddol a elwir yn MSY.

**FMSY-** Marwolaethau Pysgota'r Ddalfa Fwyaf sy'n Gynaliadwy
FMSY (= "marwolaethau pysgota MSY") yw cyfradd ddal (drwy rannu MSY – dalfa flynyddol - gyda BMSY – maint y boblogaeth).
Pan fydd y boblogaeth bysgod wedi cyrraedd BMSY a'r fflyd bysgota'n dal swm blynyddol o bysgod sy'n cyfateb i MSY, y marwolaethau pysgota o ganlyniad yw'r FMSY.

**CFP -** Polisi Pysgodfeydd Cyffredin
Cyfres o reolau yw'r CFP ar gyfer rheoli fflydoedd pysgota Ewropeaidd a diogelu stociau pysgod. Wedi'i ddylunio i reoli adnodd cyffredin, mae'n rhoi mynediad cyfartal i'r holl fflydoedd pysgota Ewropeaidd at ddyfroedd a meysydd pysgota'r UE fel y gall pysgotwyr gystadlu'n deg. Nod y CFP yw sicrhau bod pysgota a dyframaeth yn amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol gynaliadwy gan ddarparu ffynhonnell o fwyd iach i ddinasyddion yr UE. Ei nod yw meithrin diwydiant pysgota ffyniannus a sicrhau safon byw teg i gymunedau pysgota.

**Parth Arfordirol**
O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS), mae gan Barth Arfordirol gyfrifoldebau'n cynnwys rheoli adnoddau pysgodfeydd ar y cyd a phenderfynu dalfa a ganiateir a hefyd i roi mynediad i bysgodfeydd Parthau eraill os (a dim ond os) nad oes ganddynt gapasiti i gynaeafu'r ddalfa gyfan a ganiateir eu hunain.

Mae Parth Arfordirol, yn ddiofyn, yn rheoli ei Barth Economaidd Neilltuedig (EEZ) ei hun allan i 200 môr-filltir. Gellir masnachu mynediad at y dyfroedd hyn yn flynyddol. Yn draddodiadol, yn gyfnewid am gwota os yw Parth Arfordirol arall wedi'i awdurdodi i ddal hyn a hyn o'i gyfran o'r cwota yn nyfroedd Parth Arfordirol arall. Mae hyn yn fanteisiol pan fydd y stoc yn dymhorol neu fudol ei natur.

**Rhywogaethau tagu**
Mae 'tagu' yn cyfeirio at sefyllfa a allai ddigwydd pan allai'r cyfleoedd cwota ar gyfer un stoc mewn pysgodfa gymysg atal cychod pysgota rhag sicrhau'r ddalfa fwyaf o stoc arall oherwydd bod y cwota ar gael yn gyfyngedig. Mae awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ystyried problemau tagu posib wrth benderfynu cyfleoedd cwota.

**Deddf Pysgodfeydd 2020**
Yr hyn sydd fwyaf perthnasol i'r ymgynghoriad hwn yw nodi bod Deddf 2020 yn ei gwneud yn gyfreithiol ofynnol i bedwar awdurdod polisi pysgodfeydd y DU (y Sefydliad Rheoli Morol (MMO), Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru, ac Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon) gynhyrchu Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) yn disgrifio sut fydd yr amcanion yn y Ddeddf yn cael eu cwrdd.
Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd

Yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

**Cwotâu pysgota**
Cwotâu pysgota yw faint o bysgod o wahanol rywogaethau y gellir eu glanio'n gyfreithiol gan wledydd yr UE.

Pwrpas y trefniadau rheoli cwota yn yr Alban yw cynorthwyo'r diwydiant pysgota i wneud defnydd llawn o'r cyfleoedd pysgota a dderbyniwn yn flynyddol gan yr UE, gan sicrhau nad awn dros y cwotâu hyn.

**FMP -** Cynllun Rheoli Pysgodfeydd
Dogfen yw FMP sy'n cael ei pharatoi a'i chyhoeddi o dan Ddeddf 2020 ac yn disgrifio polisïau i'r pwrpas o adfer un neu fwy o stociau pysgod môr i lefel gynaliadwy neu eu cynnal ar lefel gynaliadwy neu gyfrannu at adfer neu gynnal ar lefel gynaliadwy. Mae'n gynllun gweithredu ar sail tystiolaeth sy'n cynorthwyo i ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory. Mae'r FMP yn gynllun tymor hir

sy'n rhaid ei adolygu a, lle bo angen, ei ddiwygio pob 6 mlynedd o leiaf. Mae'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer y bysgodfa (neu bysgodfeydd) ynghyd â'r polisïau a'r ymyriadau rheoli sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth hon.

**FLim -** Uchafbwynt cyfeiriol ar gyfer marwolaethau pysgota
Uchafbwynt cyfeiriol ar gyfer marwolaethau pysgota (cymedrig dros yr ystod oed penodedig)

**GES -** Statws Amgylcheddol Da
Mae Statws Amgylcheddol Da (GES) yn cael ei ddiffinio fel statws amgylcheddol dyfroedd morol sy'n golygu bod moroedd a chefnforoedd yn ecolegol amrywiol a deinamig ac yn lân, iach a chynhyrchiol o fewn eu hamodau cynhenid, a bod yr amgylchedd morol yn cael ei ddefnyddio'n gynaliadwy gan felly ddiogelu bod cenedlaethau presennol ac i ddod yn gallu ei ddefnyddio a chynnal gweithgareddau ynddo.

**JFS -** Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd
Mae'r JFS yn disgrifio polisïau'r awdurdodau polisi pysgodfeydd ar gyfer cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni, wyth amcan pysgodfeydd Deddf Pysgodfeydd 2020 ac yn rhan o Fframwaith Rheoli a Chynnal Pysgodfeydd y DU (y Fframwaith Pysgodfeydd). Mae'r JFS yn cyflwyno uchelgais y DU i barhau i ddarparu rheolaeth fyd-eang a chynaliadwy o bysgodfeydd yn unol â'r amcanion hynny, a sut y bydd yn gwneud hyn. Mae'r JFS yn diffinio sut y mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd wedi deall yr amcanion pysgodfeydd a sut y byddwn yn eu cymhwyso i bolisi pysgodfeydd.

**MAP -** Cynlluniau Aml-Flwyddyn
Mae Cynlluniau Aml-Flwyddyn (MAP) yn offeryn ar gyfer rheoli pysgodfeydd gyda'r nod o sicrhau bod stociau pysgod yn cael eu pysgota'n gynaliadwy a gyda'r nod o gynnal poblogaethau pysgod ar lefelau sy'n gallu cynhyrchu'r ddalfa fwyaf sy'n gynaliadwy.

**MPAs -** Ardaloedd Morol Gwarchodedig
Mae ardaloedd morol gwarchodedig yn ddull a ddefnyddir i warchod rhai o'r rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf bregus. Yn yr Alban, mae'r rhwydwaith MPA yn cynnwys tua 20% o ddyfroedd yr Alban.
Rheoliadau Strategaeth Forol 2010 y DU

Mae Rheoliadau Strategaeth Forol 2010 y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU gymryd y mesurau angenrheidiol i gyflawni neu gynnal Statws Amgylcheddol Da (GES) drwy ddatblygu Strategaeth Forol ar gyfer y DU.

**OSPAR -** Confensiwn ar gyfer Gwarchod Amgylchedd Morol Gogledd-Ddwyrain yr Iwerydd
OSPAR yw'r dull a ddefnyddir gan 15 o lywodraethau a'r UE i gydweithredu er mwyn gwarchod amgylchedd morol Gogledd-Ddwyrain yr Iwerydd.

**PMFs -** Nodweddion Morol Blaenoriaeth

Nodweddion morol blaenoriaeth (PMF) yw cynefinoedd a rhywogaethau a ystyrir i fod yn flaenoriaethau cadwraeth natur morol yn nyfroedd yr Alban.

**REM -** Monitro Electronig o Bell
Defnyddir camerâu REM i fonitro gweithgarwch pysgota, casglu data a sicrhau arferion gorau.

**Dyfroedd (tiriogaethol) yr Alban**
Daw dyfroedd yr Alban o dan awdurdod cyfraith yr Alban ac fe'u defnyddir hefyd i ddiffinio ardal weithredol Marine Scotland, Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban a chyrff cyhoeddus ac asiantaethau eraill Llywodraeth yr Alban.

**SSB -** Biomas stoc silio
Cyfanswm pwysau'r holl bysgod rhywiol-aeddfed yn y stoc

**SSFI -** Mynegai Pysgota Cynaliadwy'r Alban
Mae Mynegai Pysgota Cynaliadwy'r Alban (SSFI) yn crynhoi'r tueddiadau presennol o ran marwolaethau pysgota'r stociau hyn, o'i gymharu ag amcan-gyfraddau marwolaethau pysgota a ddylai arwain at y ddalfa fwyaf sy'n gynaliadwy.

**TACs -** Y Dalfeydd Mwyaf a Ganiateir
Y dalfeydd mwyaf a ganiateir (TAC), neu gyfleoedd pysgota, yw cyfyngiadau dal (a fynegir mewn tunelli neu rifau) a benderfynir ar gyfer y rhan fwyaf o stociau pysgod masnachol. Mae'r Comisiwn yn paratoi'r cynigion ar sail cyngor gwyddonol ar statws y stoc gan gyrff cynghori fel ICES a'r Pwyllgor Gwyddonol, Technegol ac Economaidd ar gyfer Pysgodfeydd (STECF).